

Camu Ymlaen

Adroddiad sicrwydd
Comisiynydd y Gymraeg
2020-21



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner



Cyhoeddwyd yn unol ag adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Medi 2021

Cynnwys

Rhagair y Comisiynydd

1	Adroddiad cryno: prif ganfyddiadau	3
2	Cyd-destun: rheoleiddio yn ystod y pandemig	6
3	Effaith COVID-19 ar ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg	15
4	Effaith COVID-19 ar drefniadau mewnol sefydliadau	34

Atodiadau

Rhagair y Comisiynydd

Bu'n flwyddyn heb ei thebyg - fel y mae pandemig Covid-19 wedi gorfodi pob un ohonom i fyw ein bywydau o ddydd i ddydd mewn ffyrdd gwahanol, bu'n rhaid i sefydliadau cyhoeddus Cymru hefyd addasu'n sydyn i 'normal newydd'. 'Normal' lle'r oedd cyfarfodydd ac apwyntiadau yn cael eu trefnu'n rhithwir; 'normal' lle nad oedd ots ble roedd staff sy'n ateb y ffôn wedi eu lleoli yn ddaearyddol; 'normal' lle nad oedd modd darparu gwasanaethau derbynfa arferol a 'normal' lle'r oedd cyfarwyddiadau a negeseuon yn cael eu cyhoeddi'n gyson ac ar frys i boblogaeth gyfan ar gyfryngau cymdeithasol.

Yn sicr, cyflwynodd cyfnod y pandemig heriau lu ac mae'n parhau i wneud hynny, ond rhoddodd hefyd gyfleoedd i'n sefydliadau cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol ac arloesol. Cofleidiodd rhai sefydliadau y cyfle i roi lle canolog i'r Gymraeg tra bod eraill wedi methu â manteisio ar y cyfle i sicrhau bod eu trefniadau newydd yn cynnal a hybu darpariaeth gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.

Fy arfer yn flynyddol yn fy adroddiad sicrwydd yw datgan barn ar y modd y mae sefydliadau cyhoeddus wedi gweithredu i gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol. Eleni fodd bynnag, mae'r pwyslais yn wahanol oherwydd fy mod yn awyddus i gydnabod pa mor anodd oedd y cyfnod, yn enwedig i weithlu'r sector iechyd a sefydliadau cyhoeddus allweddol eraill ar draws Cymru.

Pwrpas yr adroddiad hwn felly yw crynhoi'r hyn wyddom hyd yn hyn ynghylch effaith y pandemig ar ddarpariaeth Gymraeg sefydliadau a phrofiadau siaradwyr Cymraeg o'u gwasanaethau - nid yn unig y rhwystrau a gafodd effaith andwyol ond hefyd ar yr arferion effeithiol sydd wedi deillio o'r cyfnod. Prif werth hynny yw ei fod yn amlygu'r gwersi sydd i'w dysgu er mwyn galluogi sefydliadau i weithredu er mwyn cryfhau eu darpariaeth Gymraeg a chynyddu defnydd ohonynt i'r dyfodol.

Bydd pandemig Covid-19 yn sicr o newid sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru o hyn ymlaen ac mae gwir angen i rai sefydliadau addasu i ymateb i negeseuon yr adroddiad hwn, fel mae eraill eisoes wedi gwneud. Rhaid iddynt weithredu i sicrhau, nid yn unig eu bod yn darparu'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n hawlgan siaradwyr Cymraeg, ond eu bod hefyd yn cymryd eu cyfrifoldeb o'u hybu o ddifri, er mwyn annog dinasyddion Cymru i'w defnyddio.



Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg
Medi 2021

1 Adroddiad cryno: prif ganfyddiadau

Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau'r Comisiynydd ynghylch effaith pandemig Covid-19 ar ddefnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau cyhoeddus yn ystod 2020-2021.

Ar ôl cyfnod heriol y pandemig cynigir arweiniad, i roi cyfle eleni i sefydliadau cyhoeddus ddysgu o'r canfyddiadau a gweithredu er mwyn cryfhau darpariaeth a chynyddu defnydd o'r Gymraeg i'r dyfodol - eu cyfrifoldeb hwy yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau.

Manteisiodd sefydliadau ar gyfleoedd i arloesi a chryfhau darpariaeth gwasanaethau Cymraeg

- Llwyddodd rhai sefydliadau i arloesi ac ymateb ar frys gan gyflwyno gwasanaethau newydd ar-lein yn Gymraeg yn gynnar yn ystod y pandemig. Mae'n dangos bod modd i sefydliadau ystyried y Gymraeg o'r cychwyn wrth roi prosiectau ar waith.
- Wrth newid i gynnal cyfarfodydd yn rhithiol roedd nifer o sefydliadau wedi canfod datrysiadau technegol er mwyn gallu parhau i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd sefydliadau eraill fodd bynnag, yn adrodd nad oedd modd iddynt addasu ac roeddent felly yn methu darparu gwasanaeth yn Gymraeg neu hwyluso gallu staff barhau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith.

Lluniodd y Comisiynydd arweiniad brys: Cynnal cyfarfodydd fideo [dwyieithog](#) i ddarparu cyngor ymarferol i sefydliadau ar sut mae modd cynnig gwasanaethau dwyieithog yn rhithwir. Mae diffyg cyfieithu ar y pryd mewn rhai platfformau cyfarfod ar-lein o hyd ac oherwydd hyn mae angen i sefydliadau roi trefniadau eraill ar waith i alluogi defnydd o'r Gymraeg.

- Er bod pwysau mawr wedi bod ar wasanaethau cyfieithu sefydliadau yn ystod y pandemig gyda'r gofyn arnynt i gyhoeddi deunydd pwysig a swmpus ar frys; mae'n ymddangos i nifer lwyddo i ddygymod. Mae'r datblygiadau i drefniadau rhai sefydliadau, gan gynnwys datrysiadau technegol, yn dangos pa ymdrechion wnaed i addasu a bod yn fwy hyblyg er mwyn sicrhau bod y Gymraeg a Saesneg yn parhau i gael eu defnyddio ochr yn ochr.

Mae gan y Comisiynydd nodyn cyngor: Drafftio dwyieithog, [cyfieithu](#) a defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb sy'n darparu arweiniad i sefydliadau ar sut i wneud defnydd arloesol, effeithiol a chyfrifol o wasanaethau cyfieithu o bob math er mwyn hwyluso cynnig gwasanaethau dwyieithog o'r ansawdd uchaf. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi enghreifftiau o sefydliadau sydd wedi sefydlu trefniadau ar gyfer cyfieithu testun ar frys a phrosesau ar gyfer blaenoriaethu mathau penodol o wybodaeth lle bo capasiti'r gwasanaeth cyfieithu wedi ei effeithio, fel mewn sefyllfa o bandemig.

Amlygodd rhwystrau y bwlch oedd eisoes yn ymddangos rhwng y sefydliadau sy'n cydymffurfio'n dda a'r rhai sydd heb drefniadau digonol

- Llwyddodd sefydliadau sydd â phrosesau hunan reoleiddio cadarn i ragweld a delio yn well gydag anawsterau oedd yn codi yn ystod y pandemig. Hwyl oedd fwyaf tebygol o fod â darpariaeth Gymraeg oedd yn ddigon gwydn i beidio cael ei effeithio'n andwyol. Rhoddwyd trefniadau parhad busnes, neu drefniadau goruchwyllo penodol mewn lle ganddynt er mwyn parhau i gydymffurfio â'u dyletswyddau yn ystod y cyfnod heriol.

Mae angen i sefydliadau oedd wedi methu parhau i weithredu gymryd golwg ar drefniadau y rhai lwyddodd. Mae gan y Comisiynydd nodyn cyngor : [Goruchwyllo cydymffurfiaeth](#) sy'n darparu arweiniad ar roi trefniadau atebolrwydd, rheoli perfformiad a gwirio yn eu lle i sicrhau bod sefydliad yn gweithredu ei ddyletswyddau.

- Gwnaed penderfyniadau brys gan rai sefydliadau heb ystyried y Gymraeg. O ganlyniad, mewn rhai sefyllfaoedd nid oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael fel yr oedd yn flaenorol.

Mae angen i sefydliadau ddiwygio eu cynlluniau a'u strategaethau ar gyfer ymateb i argyfwng i sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei roi i effaith penderfyniadau ar y ddarpariaeth Gymraeg, maent angen cynlluniau parhad busnes cadarn mewn lle sy'n cynnwys parhau i hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

- Er bod gwasanaethau cyfieithu nifer o sefydliadau wedi dygymod yn dda yn ystod y pandemig gwelwyd datganiadau a deunyddiau brys ynghylch y pandemig yn cael eu cyhoeddi yn Saesneg yn unig, neu'n cael eu cyhoeddi'n Gymraeg yn ddiweddarach na'r Saesneg.

Mae angen i sefydliadau sicrhau bod eu gwasanaethau cyfieithu yn ddigon gwydn i alluogi cyhoeddi gwybodaeth bwysig yn y Gymraeg; gall hyn olygu fod angen datblygu gwasanaethau cyfieithu, addasu trefniadau neu gynyddu capasiti sgiliau Cymraeg y gweithlu yn fwy cyffredinol.

- Dangosodd y symudiad at gyfarfodydd rhithiol ddibyniaeth sefydliadau ar ddarpariaeth platfformau cyfathrebu ar-lein cwmnïau rhyngwladol mawr er mwyn gallu cydymffurfio gyda'r safonau a defnyddio dwy iaith.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithredu'n strategol gyda'r cwmnïau perthnasol. Mae hyn yn gam hanfodol er mwyn galluogi sefydliadau i gynnal cyfarfodydd rhithiol mewn dwy iaith ac er mwyn sicrhau nad yw defnydd gweithwyr o'r Gymraeg yn parhau i fod wedi ei gyfyngu fel rhan o drefniadau gweithio newydd.

Amlygwyd pwysigrwydd gweithgaredd hybu i gynyddu defnydd o'r Gymraeg

- Mae safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd ar sefydliadau nid yn unig i ddarparu gwasanaethau ond hefyd i hybu'r gwasanaethau Cymraeg hynny, er mwyn sicrhau fod pobl yn ymwybodol ohonynt ac yn eu defnyddio. Wrth i fwy o wasanaethau cyhoeddus gael eu darparu yn ddigidol yn sgil y pandemig, mae angen cydnabod bod carfan o ddefnyddwyr yn cymryd yn ganiataol ar sail profiad na fydd gwasanaethau ar gael – mae'n hanfodol rhoi gwybod iddyn nhw bod y gwasanaethau ar gael i sicrhau defnydd cynyddol o'r Gymraeg.

Mae angen i sefydliadau sicrhau fod gwasanaeth Cymraeg sy'n cael eu darparu yn cael eu hyrwyddo yn effeithiol ac adnoddau yn cael eu neilltuo i ganiatáu hynny.

- Gwelwyd arferion newydd yn cael eu mabwysiadu yn sgil cyflwyno patrymau newydd o weithio yn ystod y pandemig – megis yr anogaeth a roddwyd i staff nad oedd yn arfer drafftio testun yn Gymraeg i wneud hynny yn hytrach na dibynnu ar wasanaeth cyfieithu, gan fod angen symud yn gyflym i gyfleu negeseuon.

Mae'n adeg pwysig i sefydliadau ystyried pa ymyriadau mae modd iddynt eu cynllunio a'u gwireddu fel rhan annatod o gyflwyno ffyrdd newydd o weithio, er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

- Manteisiodd rhai sefydliadau ar ddarpariaeth newydd ar-lein rhaglen 'Cymraeg Gwaith' y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynnig cyfleoedd i'w staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Amlygwyd bod potensial i niferoedd uwch fanteisio ar y ddarpariaeth newydd oherwydd nad oes angen cymaint o fuddsoddiad o ran amser a chostau teithio a bod mwy o hyblygrwydd o ran amser astudio.

Mae angen i'r sefydliadau hynny sydd wedi profi anhawster i gynnal darpariaeth yn ystod y pandemig ystyried pa addasiadau mae modd iddynt eu cynllunio a'u cyflwyno er mwyn cynnig cyfleoedd i'w staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

- Bydd sefydliadau'n wynebu penderfyniadau polisi newydd a gwahanol yn sgil y pandemig ac mae'n hanfodol fod yr effaith ar y Gymraeg yn cael ei hystyried yn llawn.¹

Yn ystod 2021-22 dylai sefydliadau Rheoliadau Rhif 1 ystyried traweffaith Covid-19 ar y Gymraeg wrth adolygu eu strategaethau hybu a'u haddasu ar gyfer y 5 mlynedd nesaf – effeithiau megis y newidiadau i arferion gwaith ar y farchnad dai mewn rhai siroedd a'r cyfleoedd sy'n codi yn sgil bwriad y Llywodraeth i sefydlu hybiau cymunedol.

¹ yn unol â gofynion y safonau llunio polisi

2 Cyd-destun: rheoleiddio yn ystod y pandemig

- 2.1 Ym mis Mawrth 2020 pan oedd sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwneud cynlluniau i ddelio ag amgylchiadau eithriadol Covid-19, roedd cyfrifoldeb ar y Comisiynydd i ystyried effaith hynny ar ei allu i arfer ei swyddogaethau dan Fesur y Gymraeg. Roedd safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg yn parhau'n weithredol ac yn creu hawliau pwysig – roedd am weld cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu cynnal er gwaethaf heriau'r pandemig.
- 2.2 Roedd y Comisiynydd wedi datgan yn ei adroddiad sicrwydd ar gyfer 2019-20, Cau'r Bwlch, ei fod yn gweld risg o fwllch yn agor rhwng y sefydliadau oedd yn cydymffurfio'n dda gyda'u dyletswyddau statudol a'r rhai oedd heb drefniadau digonol i sicrhau hynny. Daeth yn amlwg fod risg i'r pandemig ddwysáu'r tueddiadau yn enwedig gan fod rhai sefydliadau, lle'r oedd pryderon eisoes yn bodoli am ddiffyg cydymffurfedd, yn adleoli staff oedd â chyfrifoldeb am y Gymraeg i adrannau eraill ymgymryd â gwaith yn gysylltiedig â'r pandemig.

Addasu dulliau rheoleiddio

- 2.3 Er mwyn cynorthwyo ymdrechion i atal ymlediad y firws, nid oedd y Comisiynydd yn dymuno rhoi pwysau ychwanegol ar sefydliadau cyhoeddus. Roedd yn sylweddoli mai blaenoriaeth sefydliadau'r sector iechyd yn enwedig dros y cyfnod heriol i ddod, fyddai ymdopi gyda'r dasg o atal ymlediad Covid-19 a delio gyda'r pwysau cynyddol o ofalu am nifer sylweddol o gleifion. Rhagwelai y byddai cyflogeion rhai sefydliadau yn gweithio dan amgylchiadau dwys ac nid oedd am iddynt orfod dygymod â straen ychwanegol tra bo'r galwadau arnynt ar eu hanterth. Byddai sefydliadau mewn sectorau eraill hefyd yn debygol o orfod newid eu trefniadau arferol, gyda llai o'u staff ar gael a nifer yn gweithio o adref. Roedd y Comisiynydd yn rhagweld na fyddai modd iddynt hwythau o bosibl, ddilyn eu prosesau arferol ar bob achlysur, ac y byddai cyfyngiadau sylweddol ar amser ac adnoddau. Er hyn, roedd o'r farn y byddai cyfrifoldeb sefydliadau i rannu gwybodaeth a chyngor cyffredinol i ddinasyddion Cymru yn wasanaeth pwysig.
- 2.4 Cysylltodd y Comisiynydd â sefydliadau cyhoeddus ddiwedd Mawrth 2020 i rannu gwybodaeth ynghylch sut yr oedd yn bwriadu addasu ei ddulliau rheoleiddio dan yr amgylchiadau. Pwysleisiodd fod dyletswydd arno o hyd i reoleiddio a gofynnodd i sefydliadau wneud eu gorau i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â'r cyhoedd i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl. Anogodd sefydliadau i osod trefniadau cyfieithu digonol yn eu lle fel rhan o'u paratodau i gyfathrebu â'r cyhoedd a dywedodd mai mater i'r sefydliadau fyddai gwneud penderfyniadau ynghylch sut i ddefnyddio'r Gymraeg wrth rannu gwybodaeth frys, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau ac unrhyw sefyllfa oedd argyfyngus yn ystod y pandemig.

Cymhwysedd dyletswyddau safonau'r Gymraeg mewn pandemig

- 2.5 Hysbyswyd sefydliadau ym mis Mawrth 2020 fod eithriadau wedi eu cynnwys yn rheoliadau safonau'r Gymraeg sy'n rhoi ystyriaeth i sefyllfaoedd o argyfwng a allai fod yn berthnasol i gyfnod y pandemig. Er enghraifft, mae rheoliadau rhif 2, 5 a 7 yn caniatáu rhoi ystyriaeth i eithrio gofynion corff i gyflenwi gwasanaeth pan fo argyfwng yn digwydd a'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ganddo yn angenrheidiol at ddiben atal, rheoli neu leddfu agwedd ar yr argyfwng hwnnw, a bod taer angen am y gwasanaeth. Felly, mewn amgylchiadau lle bodlonir yr amodau perthnasol, ni fyddai gofyniad ar rai sefydliadau i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg.
- 2.6 Derbyniwyd nifer o geisiadau gan sefydliadau am eglurder ynghylch cymhwysedd eu dyletswyddau - amlygodd ymchwiliadau i gwynion gan y cyhoedd i'r Comisiynydd wedi hynny bod diffyg dealltwriaeth yn parhau yn achos rhai sefydliadau a bod hynny wedi arwain at benderfyniadau bwriadol ac anfwriadol i beidio cydymffurfio gyda'r safonau. Cafodd hynny yn ei dro effaith andwyol ar ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd.

Gohirio proses delio â chwynion ac ymchwiliadau statudol

- 2.7 Rhwng Ebrill a Gorffennaf 2020 gohiriwyd pob ymchwiliad statudol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG Cymru. Cafodd rhai ymchwiliadau i sefydliadau mewn sectorau eraill eu gohirio yn ogystal – hysbyswyd cynghorau sir a Gweinidogion Cymru bod y Comisiynydd yn barod i oedi prosesau ymchwilio pe bai sefydliad yn ei hysbysu nad oedd yn gallu ymateb i ddarparu gwybodaeth o fewn yr amserlen arferol.
- 2.8 Cysylltodd y Comisiynydd ag achwynwyr i'w gwahodd i gyflwyno sylwadau ar ei fwriad i ddiwygio amserlen yr ymchwiliadau statudol yr oedd wedi eu cychwyn eisoes. Rhoddwyd sicrwydd i achwynwyr, lle'r oedd y Comisiynydd yn gwneud penderfyniad i ohirio ymchwiliad, y byddai'n ail afael yn y broses unwaith yr oedd yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.
- 2.9 Penderfynwyd hefyd gohirio gwneud penderfyniadau ynghylch sut i ddelio â'r cwynion newydd dderbyniwyd rhwng Ebrill 2020 a Gorffennaf 2020, gan gynnwys pob cwyn a dderbyniwyd am fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG Cymru. Ail gydiwyd yn llawn yn y broses ym mis Awst gan fod y Comisiynydd o'r farn bod pwysau ychwanegol pandemig Covid-19 wedi lleihau yn ddigonol.

Roedd y disgrisiwn a ddangoswyd gan y Comisiynydd wrth ddelio â chwynion rhwng mis Mawrth ac Awst yn gymorth sylweddol i ryddhau amser swyddogion i weithio i sicrhau parhad gwasanaethau dwyieithog yn ystod yr amgylchiadau heriol y pandemig. Symudwyd llawer iawn o swyddogion i rolau hanfodol ar ddechrau'r pandemig (ailgyflwynwyd y polisi yma ar ddechrau mis Hydref), gan ei gwneud yn anodd ymateb i ymchwiliadau parhaus. Ychydig iawn o gwynion yn ymwneud â'n gwasanaethau dwyieithog a dderbyniwyd gan y cyhoedd yn ystod y cyfnod hwn.

Gweinidogion Cymru

Ar ddechrau'r cyfnod clo, roedd hi'n fwy anodd cynnal ymchwiliadau cwynion. Roedd hyn am fod cryn dipyn o newidiadau wedi digwydd a hynny'n sydyn, roedd rhaid rhoi cyfle i swyddogion ymdopi gyda'r sefyllfa newydd a rhoi trefn ar y dulliau newydd o weithredu ... cawsom gyfnod o seibiant rhag gorfod cynnal ymchwiliadau gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Wrth i amser fynd rhagddo, ac i swyddogion ddechrau gweithio yn ôl trefn y 'normal newydd' rydym yn medru delio gyda chwynion yn y dull arferol gan ddilyn y broses cwynion corfforaethol.

Awdurdod Lleol

- 2.10 Derbyniwyd cyfanswm o 117 o gwynion yn erbyn cyrff sy'n gweithredu safonau'r Gymraeg yn ystod y 12 mis rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 – dros draean yn llai o ran nifer na'r ddwy flynedd flaenorol. Roedd 24 ohonynt yn ymwneud â gwasanaethau yn gysylltiedig â Covid-19. (Derbyniwyd 11 o gwynion eraill yn ymwneud â materion yn gysylltiedig â Covid rhwng 1 Ebrill a 31 Gorffennaf 2021). Yn ystod cyfnod cychwynnol y pandemig, derbyniwyd llai o gwynion am gydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'r safonau nag yn ystod yr un misoedd mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd nifer y cwynion yn isel iawn ym misoedd Ebrill a Mai 2020 ond gwelwyd cynnydd wedi hynny hyd nes iddynt ddychwelyd i lefelau arferol erbyn mis Awst a Medi 2020.
- 2.11 Cysylltodd nifer o unigolion gyda'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn i dynnu sylw at yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn ddiffygion o ran darpariaeth gwasanaethau yn Gymraeg gan sefydliadau, ond mynegwyd ganddynt nad oeddent am gyflwyno cwyn. Roedd nifer o'r sylwadau yn ymwneud â gwasanaethau profi ac olrhain a rhaglen frechu Covid-19 ac wrth ddarparu gwybodaeth am eu profiadau cyfeiriodd pobl at yr amgylchiadau heriol yr oedd y sefydliadau yn gweithredu ynddynt fel rheswm dros beidio bod eisiau cyflwyno cwyn.

Oedi proses herio dyletswyddau

- 2.12 Roedd y Comisiynydd yn delio â nifer o geisiadau gan sefydliadau GIG Cymru i herio dyletswyddau dan adran 55 Mesur y Gymraeg ym mis Mawrth 2020. Penderfynwyd caniatáu rhagor o amser iddynt ymateb i'w sylwadau cychwynnol ar eu ceisiadau nag a ganiateir fel arfer – dyfarnwyd ar yr holl geisiadau yn derfynol erbyn Hydref 2020.

Addasu dulliau monitro: cynnal arolwg thematig ar effaith y pandemig

- 2.13 Bu'n rhaid i'r Comisiynydd ohirio cynnal ei weithgareddau monitro ac ymgysylltu arferol yn ystod 2020-21 oherwydd cyfyngiadau'r pandemig. Fel arfer bydd yn cynnal cyfres o arolygon siopwr cudd er mwyn rhoi ei hun yn esgidiau'r defnyddiwr a chasglu tystiolaeth am brofiadau o ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn uniongyrchol. Bydd yn ymweld â derbynfydd i brofi gwasanaethau rheng flaen, ynghyd â darpariaeth arwyddion a pheiriannau hunan wasanaeth. Bydd hefyd yn cynnal arolygon i brofi gwasanaethau eraill megis ffôn, gohebiaeth a gwefannau. Canfyddiadau'r arolygon hyn yw'r brif sail tystiolaeth ar gyfer ei adroddiad sicrwydd blynyddol fel arfer. Oherwydd cyfyngiadau'r pandemig bu'n rhaid gohirio gweithgaredd monitro hwn.
- 2.14 Yn hytrach, cafodd astudiaeth thematig Covid-19 ei chynnal yn Hydref 2020 i gasglu barn sefydliadau cyhoeddus ynghylch effaith y pandemig ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi dibynnu ar wybodaeth o ffynonellau eraill fel sail tystiolaeth i'w adroddiad eleni.²
- 2.15 Mae'r Comisiynydd yn cydnabod nad oes modd dibynnu ar dystiolaeth yr arolwg thematig Covid-19 yn unig i adrodd ar effaith y pandemig ar ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg. Dewisol oedd ymateb i arolwg y Comisiynydd ac mae'n debygol mai'r sefydliadau sydd â'r adnoddau a'r awydd i ymateb oedd wedi gwneud hynny ac y gallai hynny roi gogwydd mwy cadarnhaol ar y canfyddiadau. Nid yw'r Comisiynydd felly'n awgrymu bod y canfyddiadau'n gynrychioladol o'r sefyllfa drwyddi draw.
- 2.16 Er mwyn ceisio cydbwysedd a chynnwys tystiolaeth gan ddefnyddwyr ynghylch eu profiadau hwy o ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y pandemig mae modd cyfeirio at dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Comisiynydd gan aelodau o'r cyhoedd yn eu cwynion yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2020 - Mawrth 2021, a chanfyddiadau'r Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg blynyddol.

Disgwyliadau'r cyhoedd: Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg

- 2.17 Yn flynyddol mae canfyddiadau Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg yn caniatáu i'r Comisiynydd weld os oes newidiadau dros amser yn agweddau'r cyhoedd tuag at wasanaethau Cymraeg sy'n cael eu darparu iddynt. Gall y canfyddiadau fod yn llinyn mesur o'r graddau y mae profiadau pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn gwella wrth i'r gyfundrefn safonau wreiddio. Eleni fodd bynnag mae'n bosibl nad yw cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol yn gwbl deg gan fod y pandemig wedi gorfodi newid methodoleg y gwaith ymchwil gyda'r newid o gyfweliadau wyneb yn wyneb i gyfweliadau ar-lein. Roedd y gwasanaethau yn cael eu cyflwyno mewn ffordd wahanol gan sefydliadau hefyd.
- 2.18 Ym mis Tachwedd 2020 dangosodd yr arolwg Omnibws:

² Mae rhagor o fanylion am fethodoleg arolwg thematig Covid-19 a'r ffynonellau tystiolaeth eraill yn atodiad 1

- Bod 35% o'r siaradwyr Cymraeg o'r farn fod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus yn cynyddu a 45% o'r farn eu bod yn aros yr un peth – gostyngiad o 2% ers llynedd yn y rhai oedd yn cytuno fod cynnydd.
- 16% o'r siaradwyr Cymraeg oedd yn ffafrio defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â chyrff cyhoeddus, gostyngiad o ganfyddiadau'r ddwy flynedd flaenorol (33% a 32%).
- Roedd 82% o'r siaradwyr Cymraeg yn cytuno eu bod, fel arfer, yn gallu delio â sefydliadau cyhoeddus yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- Roedd 20% o siaradwyr Cymraeg yn nodi fod rhywun wedi eu rhwystro rhag siarad Cymraeg gyda rhywun arall oedd hefyd eisiau siarad Cymraeg - cynnydd o 5% i'r ganran a nododd eu bod wedi profi ymyrraeth y llynedd.

2.19 Dylid nodi fod yr arolwg wedi ei gynnal ym mis Tachwedd 2020 yn ystod cyfnod, pan nad oedd modd i'r cyhoedd ddefnyddio'r gwasanaethau cyhoeddus i'r un graddau neu yn yr un modd ac yr oeddent wedi ei arfer mewn blynyddoedd blaenorol. Mae tystiolaeth yn adran 3 yr adroddiad hwn yn cadarnhau nad oedd gwasanaethau bob amser yn cael eu darparu yn Gymraeg ar bob achlysur. Efallai felly nad yw'n syndod bod llai o siaradwyr Cymraeg wedi datgan eu bod yn ffafrio defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus.

2.20 Roedd 70% o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd yn cytuno bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella – cynnydd o 6% dros ddwy flynedd.

2.21 Roedd 61% o'r siaradwyr Cymraeg yn cytuno eu bod yn teimlo bod ansawdd gwasanaethau cyhoeddus Cymraeg yr un mor dda â gwasanaethau Saesneg – mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 14% dros ddwy flynedd.

2.22 Dywedodd 43% eu bod yn anghytuno fod sefydliadau yn ei gwneud hi'n glir sut mae cwyno os ydynt yn anfodlon â'u gwasanaethau Cymraeg.

Cynnal cyfarfodydd rhithwir yn ddwyieithog

2.23 Mae gan lawer o sefydliadau yng Nghymru ddyletswyddau statudol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg – i'r cyhoedd ac i'w staff eu hunain. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys y gofyniad i alluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd o bob math, yn rhai cyhoeddus a phreifat. Gall y rhain fod yn gyfarfodydd o natur sensitif, er enghraifft cyfarfodydd ynghylch lles unigolyn, gwrandawiriadau disgyblu ac ati. Yn aml gellir ystyried galluogi unigolyn i ddefnyddio ei ddewis iaith mewn sefyllfaoedd o'r fath fel rheidrwydd yn hytrach na dewis, ac yn rhan annatod o ddyletswydd sefydliadau i ofalu am unigolion.

2.24 Yn fuan ar gychwyn y cyfnod clo daeth yn amlwg bod newidiadau sylfaenol i batrymau gwaith a bywyd pobl yn sgil y cyfyngiadau yn achosi chwyldro yn y defnydd o dechnoleg, yn enwedig y technolegau hynny sy'n caniatáu i bobl gynnal cyfarfodydd o bell. Roedd

sefydliadau cyhoeddus erbyn hyn yn cael eu gorfodi i gynnal eu gwasanaethau trwy ddarpariaeth cyfarfodydd rhithwir ac erbyn mis Mai 2020 roedd y Comisiynydd wedi paratoi nodyn cyngor er mwyn rhoi arweiniad ymarferol ar sut i barhau i gynnis gwasanaethau dwyieithog o safon. Roedd y cyngor yn seiliedig yn bennaf ar brofiadau Senedd Cymru oedd wedi bod yn cynnal cyfarfodydd rhithwir dwyieithog yn llwyddiannus ers Ebrill 2020 a mewnbwn arbenigol Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r Consortiwm Astudiaethau Cyfieithu.

- 2.25** Amlygwyd i'r Comisiynydd gan rai sefydliadau cyhoeddus eu bod yn ffafrio defnyddio Microsoft Teams i gynnal cyfarfodydd rhithwir, tra bod eraill wedi mabwysiadu meddalwedd wahanol fel Zoom yn benodol oherwydd bod y feddalwedd honno'n galluogi cael sianel ychwanegol ar gyfer cyfieithu ar y pryd. Sylweddolwyd bod risg i sefydliad fethu â chydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol os nad yw'r feddalwedd a ddefnyddir ganddo i gynnal cyfarfod yn galluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, heb sôn am yr effaith andwyol allai hynny gael ar les pobl.
- 2.26** O ganlyniad, penderfynodd y Comisiynydd ysgrifennu at Microsoft ym mis Tachwedd 2020 i gyfleu ei bryder gwirioneddol bod sefydliadau cyhoeddus oedd yn dewis parhau i ddefnyddio Microsoft Teams mewn perygl o fethu â chydymffurfio â'u dyletswyddau statudol ac yn esgeuluso darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Wrth gydnabod y buddsoddiad arloesol gan Microsoft i ddatblygu rhyngwynebau Cymraeg yn y gorffennol, roedd yn datgan ei obaith y byddai'r cwmni yn defnyddio'r un arloesedd i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y cyd-destun hwn ar fyrder – yn enwedig gan fod cyfarfodydd rhithwir bellach yn rhan annatod o arferion gwaith dyddiol pobl.

Cynghori ar faterion moesol a moesegol Covid-19

- 2.27** Galwyd grŵp ynghyd gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2020 i ddarparu cyngor annibynnol i wasanaethau iechyd ar faterion yn ymwneud ag ystyriaethau moesol, moesegol, diwylliannol a ffydd yn ystod pandemig Covid-19. Roedd Grŵp Cynghori ar Faterion Moesol a Moesegol COVID-19: Cymru yn darparu cyngor er mwyn helpu gwasanaethau iechyd i reoli materion oedd yn deillio o'r pandemig mewn modd teg a chyfiawn, gyda'r nod o sicrhau fod holl ddinasyddion Cymru yn cael gofal a pharch yn gyfartal.

Cyd-destun rhyngwladol

- 2.28** Gan fod pandemig yn rhyngwladol ei natur, gallwn ystyried effaith Covid-19 ar y Gymraeg yn y cyd-destun byd eang. Mae rhwydwaith Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith wedi galluogi'r Comisiynydd i ddysgu am yr heriau a gyflwynwyd gan y pandemig ac sy'n gyffredin i ieithoedd lleiafrifol ar draws y byd yn ogystal â rhannu gwybodaeth am ei effaith ar y Gymraeg hyd yn hyn.

2.29 Adroddwyd gan Gomisiynydd Ieithoedd Swyddogol Canada bod y pandemig wedi dangos ar un llaw gryfder a gwydnwch sefydliadau cyhoeddus y wlad tra ar y llaw arall, ei fod wedi amlygu beth sydd ddim yn gweithio: yn benodol, y rhwystrau mewnol sefydliadol.

Yn ystod cyfnodau o argyfwng, daw gallu cyfyngedig sefydliadau ffederal i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn y ddwy iaith swyddogol i'r amlwg. Os yw sefydliad ffederal wedi tanamcangyfrif lefel y sgiliau iaith sydd eu hangen ar gyfer ei gyflogeion, er gwaethaf tasgau a dyletswyddau eu swyddi, yna yn ystod argyfwng, mae'n debygol na fydd y gweithwyr hynny'n gallu ymateb i'r cyhoedd gyda'r un sylw i fanylion ac ansawdd y gwasanaeth yn y ddwy iaith swyddogol. Mae'r un peth yn wir am reolwyr o ran cefnogi eu gweithwyr.

'Roedd pandemig COVID-19 yn gorfodi ein sefydliadau ffederal i ymateb yn brydlon ac yn bendant ... yn rhy aml, dim ond mewn un o'n dwy iaith swyddogol y cyhoeddwyd cyfathrebu diogelwch brys, a bu'n rhaid i Ganada aros am y cyfieithiad i'r iaith swyddogol arall. Roedd y sefyllfa hon yn amlygu diwylliant corfforaethol llawer o unedau gwaith mewn sefydliadau ffederal nad ydynt bob amser yn blaenoriaethu ieithoedd swyddogol nac yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb Saesneg a Ffrangeg.

Credaf yn gryf fod angen newidiadau o fewn y llywodraeth ffederal fel bod ieithoedd swyddogol, yn ystod argyfyngau, yn rhoi'r gorau i fod yn ôl-ystyriaeth ac yn dechrau bod yn rhan annatod o reoli argyfwng.

[Raymond Théberge, Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol, Canada](#)

2.30 Cyhoeddwyd adroddiad ganddo ym mis Hydref 2020 [A Matter of Respect and Safety: The Impact of Emergency Situations on Official Languages](#) – astudiaeth ar effaith argyfyngau ar ieithoedd swyddogol. Canfyddiad allweddol yr adroddiad oedd bod un iaith swyddogol yn aml yn cymryd sedd gefn mewn sefyllfaoedd brys ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Canada sefydlu gweithdrefnau mewnol ar gyfer cyfathrebu yn y ddwy iaith swyddogol, ac yna'n gwerthuso eu heffeithiolrwydd mewn amseroedd arferol ac ar adegau o argyfwng.

Mae'r cwynion y mae fy swyddfa wedi'u derbyn dros y blynyddoedd diwethaf, yr ymchwiliadau yr ydym wedi'u cynnal a'r adroddiad a ryddhawyd gennym ar sefyllfaoedd brys yn dangos yn glir natur reolaidd y broblem hon. Un o achosion sylfaenol y mater hwn yw'r asesiad amhriodol o ofynion iaith swyddi, sy'n golygu nad oes gan lawer o weision cyhoeddus y sgiliau ail iaith i allu ymateb i'r cyhoedd na goruchwyllo gweithwyr yn y naill iaith swyddogol na'r llall.

Yn fy marn i, mae'r broblem yn ymwneud â diffyg aeddfedrwydd penodol ar ran sefydliadau ffederal o ran ieithoedd swyddogol, sy'n cyfateb i ddau beth: diffyg prosesau a mecanweithiau sydd wedi'u diffinio'n glir wedi'u hintegreiddio i brosesau busnes sefydliadau ffederal; ac amgylchedd gwaith lle nad yw gweithwyr yn cael cyfle i siarad neu weithio yn yr iaith swyddogol nad yw'n brif-iaith, boed yr iaith honno yn brif iaith neu'n ail iaith swyddogol iddynt.

[Raymond Théberge, Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol, Canada](#)

- 2.31 Yn ei adroddiad blynyddol Tuarascáil Bhliantúil 2020 mae Comisiynydd y Wyddeleg yn nodi bod y wladwriaeth wedi bod yn wynebu heriau enfawr o ran darparu ar gyfer y rhai sydd â'r angen mwyaf yn ystod y cyfnod pan oedd y byd yng nghanol argyfwng iechyd, cymdeithasol ac economaidd. Dywedodd fod profiad gwerthfawr yn cael ei ennill wrth i'r heriau hyn gael sylw a fydd o fudd i'r gwasanaeth cyhoeddus yn yr amseroedd sydd i ddod, ac fod yr amgylchiadau yn rhoi rhywfaint o ddealltwriaeth o'r graddau y mae deddfwriaeth hawliau wedi ei gwreiddio yng ngweinyddiaeth y wladwriaeth.

Roedd un o bob pump cwyn a dderbyniais eleni yn ymwneud â'r argyfwng iechyd; nid oedd gwybodaeth ar gael yn y Wyddeleg neu roedd oedi cyn ei ddarparu yn y Wyddeleg o'i gymharu â'r Saesneg. Un mater a oedd yn peri gofid i achwynwyr oedd bod cyrff cyhoeddus yn codi arwyddion uniaith Saesneg ynglŷn â COVID-19, fel pe na bai'r rheoliadau o dan y Ddeddf yn bodoli o gwbl ... Mae hyn yn fethiant sylweddol a gweledol o ddyletswydd statudol sylfaenol sydd wedi bod ar waith ers dros ddegawd.

Y teimlad cyffredinol ymhlith y rhai a gysylltodd â'm Swyddfa oedd bod yr iaith swyddogol gyntaf yn cael ei rhoi o'r neilltu neu fod yr iaith a siaradwyr yr iaith Wyddeleg yn cael eu gwthio i'r cyrion ar adegau, mewn cyfnod pan oedd angen dod â'r cyhoedd at ei gilydd at ddiben cyffredin.

[Rónán Ó Domhnaill, Comisiynydd y Wyddeleg](#)

2.32 Canfu ei ymchwiliadau yn ystod 2020-21 themâu cyffredin yn yr ymatebion a gafwyd gan gyrff cyhoeddus ynghylch eu dyletswyddau statudol – yr angen iddynt gymryd camau penodol ar frys a oedd yn golygu, oherwydd amgylchiadau eithriadol yr argyfwng iechyd, gwneud penderfyniadau i beidio â gweithredu dyletswyddau iaith statudol, neu i'w gohirio, neu i'w hanwybyddu gan y byddai'n oedi pa gamau bynnag oedd yn cael eu cymryd.

2.33 Mae Comisiynydd y Wyddeleg yn nodi na ddylai fod gwrthdaro rhwng y camau cenedlaethol difrifol sydd ar y gweill i ddelio â'r pandemig a chyfrifoldebau o ran hawliau ieithyddol. Sail dadleuon cyrff cyhoeddus, meddai, yw maint yr adnoddau sydd ar gael i gydymffurfio â dyletswyddau ieithyddol ac y gallai darparu gwasanaethau'n ddwyieithog arwain at oedi. Pe bai hynny'n wir, byddai'n creu sefyllfa lle byddai darparu gwasanaethau yn Wyddeleg yn dibynnu ar y sefyllfa benodol dan sylw a blaenoriaethau neu adnoddau'r corff cyhoeddus - gallai hyn arwain at sefyllfa lle mai'r mwyaf pwysig a brys yw'r gwasanaeth, y lleiaf o gyfle fyddai i'r cyhoedd eu derbyn yn Wyddeleg.

Ni ddylai fod gwrthdaro rhwng y camau cenedlaethol difrifol sydd ar y gweill ac ymrwymadau o ran hawliau iaith.

Rónán Ó Domhnaill, Comisiynydd y Wyddeleg

3 Effaith COVID-19 ar ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg

Cyd-destun

- 3.1 Soniwyd eisoes fod y Comisiynydd wedi cynnal arolwg yn Hydref 2020 i gasglu barn sefydliadau cyhoeddus ynghylch effaith pandemig Covid-19 ar eu darpariaeth Gymraeg. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r dystiolaeth a gyflwynwyd ynghylch yr effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau – dewiswyd y dyfyniadau i adlewyrchu gwahanol safbwyntiau'r darparwyr.
- 3.2 Adroddwyd gan fwyafrif y sefydliadau a ymatebodd i'r arolwg na chafodd y pandemig fwy o effaith ar eu gwasanaethau Cymraeg rheng flaen megis derbynfa a ffôn – o'i gymharu a'u gwasanaethau cyfatebol Saesneg – a bod gwasanaethau Cymraeg yn parhau i gael eu cynnig fel yr oeddent cyn yr argyfwng. Nid yw hyn fodd bynnag yn golygu fod y sefydliadau yn cydymffurfio gyda'u dyletswyddau ond yn hytrach eu bod yn parhau i gynnig y gwasanaethau Cymraeg i'r un graddau ag yr oeddent cyn y pandemig.
- 3.3 Lle nodwyd gan sefydliadau yn eu hymateb i'r arolwg na fu effaith o gwbl ar y ddarpariaeth Gymraeg, nid yw hynny ychwaith yn golygu bod y ddarpariaeth Gymraeg yn ddigonol, nac yn cydymffurfio. Yn ogystal, oherwydd nad yw'r un dyletswyddau wedi eu gosod ar bob sefydliad a bod eithriadau i rai dyletswyddau mewn argyfwng mewn rhai achosion, nid yw cyfeiriadau at oedi neu ddiffygion gwasanaethau Cymraeg yn ystod y pandemig o reidrwydd yn golygu fod diffyg cydymffurfiaeth.
- 3.4 Ceir yn yr adran hon hefyd ychydig o'r dystiolaeth dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd wrth iddynt gyflwyno cwynion i'r Comisiynydd rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021. Dewiswyd enghreifftiau o gwynion sy'n adlewyrchu profiadau amrywiol mewn achosion ble mae'r Comisiynydd wedi llwyddo i gwblhau'r broses ymchwilio a hysbysu'r sefydliadau o'i ddyfarniad a'r camau y mae'n gofyn iddynt eu cymryd i gywiro unrhyw ddiffygion.

Gwasanaethau rheng flaen

Derbynfa

- 3.5 Roedd nifer o sefydliadau cyhoeddus yn adrodd bod eu gwasanaethau derbynfa wedi dod i ben yn llwyr gan fod swyddfeydd ar gau (naill ai'n yn gyfan gwbl neu i ymwelwyr). Ble roedd gwasanaeth derbynfa wedi ailgychwyn neu barhau, mae awgrymiadau ei fod wedi ei addasu, e.e. yn digwydd ar sail apwyntiad yn unig, neu gyda llai o staff.

Roedd cau adeiladau a chyfyngu ar niferoedd staff yn ei gwneud yn anodd i gael / dyrannu staff â sgiliau Cymraeg. Cafodd nifer o weithwyr eu secondio hefyd i weithio yn adran Tracio, Olrhain a Diogelu, a ostyngodd nifer y siaradwyr Cymraeg.

Awdurdod Lleol

- 3.6 Nododd rhai sefydliadau fod addasiadau wedi golygu bod llai o staff Cymraeg ar gael, ond mewn sefydliadau eraill adroddwyd na chafodd capasiti gwasanaethau Cymraeg eu heffeithio.

Ffôn

- 3.7 Adroddwyd gan nifer o sefydliadau iddynt drosglwyddo'u gwasanaethau ffôn i gael eu darparu o gartrefi staff heb i hynny effeithio ar y ddarpariaeth Gymraeg. Ond roedd hefyd enghreifftiau o sefydliadau'n cael trafferth cyfeirio galwadau at siaradwyr Cymraeg, naill ai am resymau technegol neu oherwydd diffyg staff. Tra gwelodd rhai sefydliadau gynnydd cyffredinol yn y defnydd o wasanaethau ffôn, roedd eraill yn adrodd na chynyddodd y defnydd o'r gwasanaeth Cymraeg i'r un graddau â'r Saesneg.

Mae galwadau ffôn yn dal i gael eu hateb yn ddwyieithog felly nid oes unrhyw effaith ar y gwasanaeth ateb. Fodd bynnag, ni ellir trosglwyddo galwadau ffôn yn uniongyrchol gan fod staff yn gweithio gartref ... mae oedi posibl cyn siarad â phersonél allweddol sy'n siarad Cymraeg.

Awdurdod Lleol

- 3.8 Cyfeiriodd rhai sefydliadau yn benodol at ddatrysiadau technegol newydd oedd yn cyflwyno gwelliannau i drefniadau trosglwyddo galwadau ffôn gan alluogi darparu'r gwasanaeth Cymraeg tra roedd staff yn gweithio gartref.

Fe wnaethom gyflwyno system ffôn newydd a oedd yn galluogi preswylwyr i nodi dewis iaith - Cymraeg neu Saesneg - cyn dewis pa wasanaeth yr oeddent am siarad â chynghorydd yn ei gylch. Gyda'r mwyafrif helaeth o'r trigolion yn dymuno siarad yn Saesneg roedd hyn yn golygu, y rhan fwyaf o'r amser, bod ein siaradwr Cymraeg eisoes yn delio â siaradwr Saesneg ac nad oedd bob amser ar gael. Cafodd hyn ei adnabod fel mater o bryder a chafodd cyfleuster arbed neges llais ei hychwanegu, lle gallai siaradwr Cymraeg adael neges fyddai'n cael ei throsglwyddo i gynghorydd sy'n siarad Cymraeg i ddelio a'r mater fel blaenoriaeth.

Awdurdod Lleol

Bu angen cael datrysiad technegol ar frys ddiwedd mis Mawrth er mwyn galluogi staff ein Canolfan Gofal Cwsmer fedru ateb galwadau ar ein prif rif ffôn oddi gartref, gan ddefnyddio ffonau symudol. Roedd system debyg mewn lle yn barod ar gyfer argyfwng. Addaswyd y system yma er mwyn ymateb galwadau fel yr arfer. Nid oedd y datrysiad brys cyntaf a gyflwynwyd ddiwedd mis Mawrth yn cynnig dewis iaith i'r cwsmer tu hwnt i neges wedi ei recordio yn Gymraeg ond datryswyd hyn yn fuan iawn i sicrhau bod y system yn cynnig dewis iaith yn rhagweithiol i bob cwsmer fel yr arfer.

[Corff a noddur gan Lywodraeth Cymru](#)

- 3.9 Cyfeiriodd rhai sefydliadau eu bod wedi cyflwyno sgwrsio ar-lein fel modd o leihau cyswllt drwy'r dderbynfa a dros y ffôn, a'u bod wedi sicrhau bod staff Cymraeg ar gael.

Cyfarfodydd

- 3.10 Cyflwyno cyfarfodydd ar-lein oedd y datblygiad technegol amlycaf a gyflwynwyd gan sefydliadau yn ystod y pandemig. Er bod cyfeiriadau wedi eu gwneud at drafferthion o ran diffyg cyfieithu ar y pryd mewn rhai platfformau cyfarfod ar-lein, roedd yn ymddangos fod nifer wedi gallu goresgyn hyn trwy er enghraifft, ddefnyddio platfform sy'n caniatáu cyfieithu ar y pryd, defnyddio dwy system i gael dwy ffrwd sain neu sicrhau bod pawb yn y cyfarfod (mynychwyr a staff) yn siarad Cymraeg.

Rhaid oedd i ni adolygu elfen cyfieithu ar y pryd o'n gwaith ar fyrder i sicrhau bod yr hawl i siarad Cymraeg mewn gwrandawriad Llys yn cael ei gynnal wrth iddynt fynd yn rhithiol. Llwyddodd y tîm i sicrhau hyn trwy ddefnyddio cyfuniad o CVP (platfform cwmwl fideo) a galwad ffôn ar *BTMeetMe* ar gyfer y cyfieithu. Unwaith y cafodd y broses ei chymeradwyo sicrhawyd bod y cyfieithwyr yn cael cyfle i drïo'r system ac yn dilyn hynny cafodd cyfarwyddiadau cynhwysfawr eu llunio ar sut i'w ddefnyddio.

[Asiantaeth Llywodraeth y DU](#)

Mae unrhyw gyfarfodydd gydag unigolion wedi'u cynnal drwy ddulliau rhithiol oherwydd cyfyngiadau yn y gweithle ac yn ehangach. Mae'r effaith wedi bod yn debyg i'r effaith ar gyfarfodydd Saesneg o ran gweinyddu a chymorth i sicrhau trefniadau effeithiol. Cefnogir gallu cyfieithu drwy ein llwyfan cyfarfod a byddem yn ceisio darparu unrhyw wasanaethau iaith gofynnol yn yr un modd â phe bai'n gyfarfod wyneb yn wyneb.

[Comisiynydd Heddlu](#)

Mae meddalwedd ymgynghori fideo yn galluogi paru mwy o aelodau staff sy'n siarad Cymraeg â chleifion sy'n siarad Cymraeg - gallai hynny fod yn anoddach yn y lleoliadau clinigol blaenorol lle byddai angen i staff sy'n siarad Cymraeg deithio'n bell i gwrdd â chleifion.

[Bwrdd Iechyd](#)

Gosododd y Cyngor Microsoft Teams ar waith trwy'r sefydliad. Mae'n wybodaeth gadarn fod Llywodraeth Cymru yn datblygu gwaith er mwyn i Teams allu hwyluso defnyddio cyfieithu ar y pryd. Rydym yn chwilio'n gyson am welliannau parhaus a dysgu gwersi wrth i ni addasu i ffordd newydd o weithio a defnyddio technolegau newydd.

[Awdurdod Lleol](#)

Un datblygiad allweddol i ni fel sefydliad fu cyflwyno gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer ar-lein, sydd wedi digwydd o bell, gan ddefnyddio Zoom, ers mis Medi 2020. Yn ystod y gwrandawiadau hyn, mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael, er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n cymryd rhan yn gallu gwneud hynny yn eu dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg).

[Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru](#)

- 3.11 Fodd bynnag, cadarnhawyd gan nifer o sefydliadau iddynt gyflwyno cyfarfodydd fideo nad oedd yn galluogi defnyddio'r Gymraeg a bod gorfod symud i gynnal cyfarfodydd ar-lein wedi eu hatal rhag galluogi defnyddio'r Gymraeg. Nid oedd y dystiolaeth ymhob achos yn egluro beth oedd y rhesymau dros beidio â defnyddio plattform sy'n galluogi cyfieithu ar y pryd - awgrymodd rhai bod pryderon diogelwch yn ffactor.

Roedd y datrysiad ddewiswyd gan ein sefydliad ar gyfer cynnal cyfarfodydd rhithwir *Webex* yn atal defnydd o'r Gymraeg, gan nad oes cyfieithu ar y pryd ar gael arno. Oherwydd hyn, nid oedd rhai cyfarfodydd rhanbarthol a fyddai fel arfer wedi cynnig cyfieithu ar y pryd yn cynnig y gwasanaeth pan gynhaliwyd y cyfarfodydd.

[Awdurdod Lleol](#)

Oherwydd fod staff yn gweithio gartref yn ystod y pandemig roedd yn golygu bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb naill ai'n cael eu canslo neu'n cael eu cynnal drwy MS Teams sydd ddim yn cefnogi cyfieithu ar y pryd.

[Awdurdod Lleol](#)

Cwyn ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfod

Nid oes modd gwyllo cyfarfod o Gabinet fy nghyngor lleol ar ei wefan Gymraeg, yn wahanol i fersiwn Saesneg y wefan lle mae'n bosib gwyllo'r cyfarfod yn ddiraffferth.

Aelod o'r cyhoedd, Tachwedd 2020

Cyflwynwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd am wasanaeth gwe-ddarlledu ei gyngor lleol. Penderfynodd y Comisiynydd ymchwilio i'r gŵyn oherwydd ei fod o'r farn bod ffrydio cyfarfodydd yn wasanaeth oedd yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol ers peth amser bellach. Roedd yr achos hefyd yn codi cwestiynau am ddealltwriaeth y darparwr trydydd parti o'r gofynion ar y cyngor.

Adroddwyd bod y cwmni oedd yn darparu'r gwasanaeth ar ran y cyngor wedi profi heriau technegol wrth ddefnyddio meddalwedd diogel a phriodol, a darparu cyfarpar i alluogi cyfarfod i gael ei recordio a'i uwch-lwytho o bell i'r rhynggrwyd. Roedd y cyngor yn cydnabod ei fod yn ymwybodol nad oedd yn bosib gwyllo'r cyfarfod ar fersiwn Gymraeg y wefan gwe-ddarlledu, er ei fod ar gael ar fersiwn Saesneg y wefan. Erbyn i'r Comisiynydd gwblhau'r ymchwiliad roedd y cyngor wedi addasu'r broses o archifo recordiadau cyfarfodydd i sicrhau bod modd gwyllo'r cyfarfod ar y wefan gwe-ddarlledu Gymraeg a Saesneg.

Mae'r ymchwiliad wedi amlygu bod angen sicrhau bod addasiadau i wasanaeth yn cael eu cynllunio mewn ffordd sy'n cymryd gofynion safonau'r Gymraeg i ystyriaeth ac y dylid diwygio cynlluniau ar gyfer ymateb i argyfwng i sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei roi i effaith penderfyniadau ar y ddarpariaeth Gymraeg. Amlygwyd hefyd yr angen i sefydliadau sy'n defnyddio trydydd parti i ddarparu gwasanaethau gwe-ddarlledu sicrhau fod y darparwyr yn eglur ynghylch unrhyw ofynion dan safonau'r Gymraeg.

Deunyddiau a thestun ysgrifenedig

Gohebiaeth

- 3.12 Nododd mwyafrif y sefydliadau oedd wedi ymateb i'r arolwg nad oedd y pandemig wedi effeithio ar wasanaeth gohebiaeth Gymraeg, gyda rhai'n manylu fod y prosesau arferol ar waith. Cyfeiriodd rhai at enghreifftiau lle anfonwyd gohebiaeth yn Saesneg yn unig, neu at oedi o ran darparu fersiwn yn Gymraeg.

Danfonwyd pob gohebiaeth newydd i fyfyrwyr yn Gymraeg a Saesneg. Pan gyflwynwyd cofrestrriad ar-lein, anfonwyd yr holl negeseuon awtomatig o'r System Wybodaeth ganolog yn Gymraeg ac yn Saesneg.

[Coleg Addysg Bellach/Uwch](#)

Mae pob gohebiaeth yn cael ei thrin yn yr un ffordd â chyn y pandemig, heb unrhyw wahaniaeth rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

[Comisiynydd Heddlu](#)

Ar achlysuron prin iawn mae negeseuon wedi cael eu hanfon yn Saesneg yn unig gyda'r Gymraeg yn dilyn yn fuan wedyn, er enghraifft pan mae'n ofynnol i ni ddarparu ymatebion brys i'n carfan myfyrwyr yn dilyn cyhoeddiadau ynghylch y cyfnod clo a chan Weinidogion. Mae hyn o ganlyniad i bwysau ychwanegol ar ein darparwyr cyfieithu arferol sydd wedi arwain at rywfaint o oedi.

[Coleg Addysg Bellach/Uwch](#)

Mae'r Tîm Cyfieithu wedi bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu llawn o adref. Anfonwyd neges i Uwch Reolwyr ar ddechrau'r cyfnod clo i roi gwybod nad oedd effaith ar y gwasanaeth cyfieithu. Roedd y tîm cyfieithu yn blaenoriaethu unrhyw lythyrau, datganiadau i'r wasg, swydd ddisgrifiadau oedd yn ymwneud yn benodol â Covid-19.

[Bwrdd Iechyd](#)

3.13 Nododd rhai sefydliadau nad oedd gwasanaeth ymateb i ohebiaeth ar gael yn Gymraeg o gwbl yn ystod y cyfnod.

Roedd gohebiaeth papur, trwy'r post ac e-byst yn cael eu trin yn y ffordd arferol yn ystod ac wedi'r cyfnod clo. Fodd bynnag, ar adegau, oherwydd y llif o ohebiaeth electroneg a phwysau gwaith aruthrol ar swyddogion yn ystod y cyfnod hwn, roedd yr amser ymateb i rywfaint o ohebiaeth yn arafach na'r arferol. Fodd bynnag, roedd y sefyllfa'r un fath mewn perthynas â gohebiaeth yn y ddwy iaith - nid oedd unrhyw oediad ychwanegol wrth ymateb i ohebiaeth Gymraeg.

[Awdurdod Parc Cenedlaethol](#)

Ystyriwyd bod gohebiaeth yn argyfwng ac nid oedd yn ofynnol i'r staff gyfieithu. Roedd sicrhau cyfathrebu gan y staff yn golygu nad oedd cyfieithu bob amser yn bosibl a bod nifer y cyfathrebu tyfu'n ddyddiol. Yr ydym yn dychwelyd yn araf i amserlen gyfathrebu reolaidd.

[Sefydliad GIG Cymru](#)

Roedd y gwasanaeth e-bost Cymraeg wedi ei gau rhwng 20 Mawrth 2020 a 6 Awst 2020. Roedd cwsmeriaid yn gallu cysylltu gyda ni'n Gymraeg ar ein Cyfryngau Cymdeithasol. Roedd yr holl wasanaethau ar-lein yn gweithio'n dda ac roeddwn yn annog cwsmeriaid i'w defnyddio nhw pan yn bosibl (maent yn parhau y ffordd fwyaf haws a chyflym i drafod gyda ni).

[Asiantaeth Llywodraeth y DU](#)

Cwyn ynghylch ateb gohebiaeth

Rwyf wedi anfon e-byst yn Gymraeg at fy nghyngor lleol ynghylch taliadau debyd uniongyrchol treth y cyngor – dim ond yn Saesneg mae'r Cyngor wedi ymateb.

Aelod o'r cyhoedd, Mai 2020

Cyflwynwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni iddo dderbyn gohebiaeth Saesneg gan ei gyngor lleol ar ddau achlysur mewn ymateb i ohebiaeth e-bost anfonwyd ato yn Gymraeg. Penderfynodd y Comisiynydd ymchwilio i'r gŵyn oherwydd bod awgrym fod y methiant yn arfer systemig yn hytrach na chamgymeriad untro.

Cadarnhaodd yr ymchwiliad bod yr ohebiaeth wedi ei anfon at yr achwynydd gan aelod staff yn ystod pandemig Covid-19 tra roedd staff y Cyngor i gyd yn ynysig ac yn gweithio o adref. Roedd y Cyngor eisoes wedi llunio canllaw eglur at ddefnydd ei staff sy'n egluro'r camau i'w cymryd wrth ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg. Roedd yn cydnabod iddo ymateb yn Saesneg i ohebiaeth a dderbyniodd yn Gymraeg oherwydd bod aelod staff wedi cynnig ymateb cyflym.

[Mae'r ymchwiliad wedi amlygu pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth staff ynghylch eu cyfrifoldeb i weithredu unrhyw ganllawiau neu weithdrefnau sydd wedi eu mabwysiadu. Mae'n dangos bod angen gosod trefniadau parhad busnes yn eu lle i sicrhau bod sefydliad yn ystyried effaith unrhyw amgylchiadau ar y Gymraeg yn ystod cyfnodau heriol.](#)

Dogfennau a deunyddiau

- 3.14 Yn y mwyafrif o achosion nodwyd gan sefydliadau na effeithiodd y pandemig ar eu gallu i ddarparu deunyddiau yn Gymraeg – cyfeiriodd nifer at bwysigrwydd gwasanaethau cyfieithu, a oedd dan bwysau ychwanegol, i alluogi hynny. Roedd mwyafrif y sefydliadau yn manylu bod y trefniadau arferol yn parhau mewn lle. Nodwyd gan rai bod ychydig o achosion lle cafodd datganiad neu ddeunyddiau brys ynghylch y pandemig eu cyhoeddi

Cyhoeddwyd dogfennau a deunyddiau brys eraill yn Saesneg yn unig, e.e. y wybodaeth/gohebiaeth sy'n cynnwys gwybodaeth iechyd a diogelwch a gyhoeddwyd ar anterth yr argyfwng. Gwnaed y penderfyniad yng ngoleuni nifer o amgylchiadau: i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am iechyd a diogelwch ar gael mewn modd amserol; cafodd nifer fawr o staff eu hadleoli dros dro i helpu gydag ymateb y Cyngor i'r achosion gan gyfyngu ar gapasiti'r Gymraeg; yn ogystal â'r ffyrdd newydd o weithio i staff ar adeg mor dyngedfennol. Lle nad oedd fersiynau o ddogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân, roedd modd cynhyrchu/cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ac ati.

[Awdurdod Lleol](#)

yn Saesneg yn unig, neu fod oedi wrth gyhoeddi'r fersiwn Gymraeg, yn sgil anallu i gael cyfieithiad yn ddigon cyflym a'r sefyllfa'n newid ar fyr rybudd.

Ar ddechrau'r cyfnod clo anfonwyd llythyr at bob preswlydd yn Saesneg yn unig yn rhoi gwybod iddynt am y Cynllun Ymateb Cyfaill Cymunedol a oedd yn cael ei sefydlu i helpu pobl fregus yn y sir. Gwnaed hyn oherwydd brys y llythyr a chael pobl i ymuno â'r gwasanaeth.

[Awdurdod Lleol](#)

Mae ein system gyfieithu yn gweithio'n effeithiol o bell felly nid oes unrhyw effaith iaith ar ddogfennau. Dim ond pan ddigwyddodd achos Covid dros benwythnos ac roedd angen i ni gael gwybodaeth i rieni ar frys ar ein gwefan ar nos Sul y digwyddodd hynny yn Saesneg yn unig ond cafodd hyn ei gywiro ben bore Llun gan ein tîm cyfieithu (nid yw'r tîm yn gweithio ar benwythnosau).

[Coleg Addysg Bellach/Uwch](#)

Cwyn ynghylch anfon gohebiaeth

Cefais llythyr a thaflen gan fy nghyngor lleol trwy fy mlwch llythyr. Roedd yn cynnwys gwybodaeth yn uniaith Saesneg am y pandemig Covid-19.

Aelod o'r cyhoedd, Ebrill 2020

Cyflwynwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni iddo dderbyn dogfen uniaith Saesneg gan ei gyngor lleol gyda gwybodaeth ynghylch pandemig Covid-19. Penderfynodd y Comisiynydd ymchwilio oherwydd ei bod yn ymddangos fod penderfyniad strategol wedi ei wneud gan y Cyngor i beidio gohebu yn Gymraeg.

Cadarnhaodd yr ymchwiliad nad oedd gan y Cyngor unrhyw siaradwyr Cymraeg yn rhan o'i Dîm Cyfathrebu ar y pryd ac roedd o'r farn y byddai oedi'n anochel pe bai'n anfon gohebiaeth yn Gymraeg. Roedd y Cyngor yn cydnabod ei fod wedi anfon yr ohebiaeth at yr unigolyn yn Saesneg wedi iddo wneud penderfyniad ar sail iechyd a diogelwch a diffyg adnoddau yn ystod y cyfnod heriol. Dyfarnodd y Comisiynydd bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio oherwydd ei fod wedi gwneud penderfyniad pwrpasol i anwybyddu gofynion y safon wrth anfon yr ohebiaeth am wasanaeth newydd i gefnogi preswylwyr bregus yn ystod y pandemig; bod amser wedi ei dreulio yn penderfynu ar y cynnwys a'r dyluniad a barn y Comisiynydd oedd y dylai'r Cyngor fod wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod amser hefyd i greu fersiynau Cymraeg. Nodwyd ei fod yn disgwyl gweld ymdrech gan y Cyngor i gynnal ei wasanaethau Cymraeg bob amser.

Mae'r ymchwiliad wedi amlygu pwysigrwydd diwygio cynlluniau a strategaethau ar gyfer ymateb i argyfwng i sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei roi i effaith penderfyniadau ar y Gymraeg. Amlygwyd pwysigrwydd pennu proses ar gyfer blaenoriaethu mathau penodol o wybodaeth lle bo capasiti'r gwasanaeth cyfieithu wedi ei effeithio. Dangoswyd bod angen ystyried sut i sicrhau fod deunyddiau brys yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ar yr un pryd a'r angen o bosibl i ystyried capasiti gwasanaethau cyfieithu arferol, trefniadau cyfieithu testun ar frys neu gapasiti sgiliau Cymraeg y gweithlu yn fwy cyffredinol.

Gwefannau a gwasanaethau ar-lein

- 3.15 Adroddwyd gan y mwyafrif o sefydliadau na effeithiodd y pandemig ar eu gallu i ddarparu tudalennau gwe a gwasanaethau ar-lein yn Gymraeg. Nododd rhai bod ambell i dudalen neu wasanaeth wedi cael eu cyhoeddi yn Saesneg yn unig, neu fod oedi wrth gyhoeddi'r fersiwn Cymraeg, yn sgil anallu i gael cyfieithiad yn ddigon cyflym neu wneud gwaith datblygu ochr yn ochr.
- 3.16 Cyfeiriodd nifer o sefydliadau at wybodaeth a gwasanaethau ar-lein newydd a gyflwynwyd - rhai ohonynt yn gynnar iawn yn ystod y pandemig naill ai'r un pryd neu'n fuan ar ôl y gwasanaeth Saesneg. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau ar-lein proffil uchel a oedd yn effeithio ar nifer fawr o bobl ac a ddatblygwyd ar frys mewn ymateb i'r pandemig.

Roedd yn rhaid i ni ddatblygu nifer o ffurflenni ar-lein ar fyr rybudd. Roedd y rhain yn cynnwys ffurflen gais am grant busnes, ffurflen archebu gofal plant, ffurflen archebu ar gyfer ein Canolfannau Gwastraff ac Ailgylchu, ffurflen archebu clicio a chasglu ar gyfer Llyfrgelloedd a ffurflenni archebu gweithgareddau'r Ganolfan Hamdden. Er mwyn cynhyrchu'r rhain o fewn yr amserlenni gofynnol, cynhyrchwyd nifer yn Saesneg yn unig i ddechrau. Mae'r rhai sy'n dal i gael eu defnyddio, fel ffurflen archebu'r Ganolfan Gwastraff ac Ailgylchu a'r ffurflen archebu clicio a chasglu ar gyfer Llyfrgelloedd, bellach ar gael yn Gymraeg. Nid yw ffurflenni eraill yn cael eu defnyddio mwyach.

[Awdurdod I.leol](#)

Ar ddechrau'r argyfwng roedd rhai negeseuon brys yn cael eu cyhoeddi ar y wefan yn Saesneg yn gyntaf gyda'r Gymraeg yn dilyn unwaith i'r neges gael ei gyfieithu, weithiau awr neu ddwy yn ddiweddarach. Roedd yr e-bost a anfonwyd ar Fawrth 17 - Gwaith rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg yn ystod Covid-19 - yn awgrymu bod hynny'n dderbyniol. Unwaith i'r broses gael ei mireinio, roedd y negeseuon yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Wrth i fwy o'n gwasanaethau gael eu cynnig yn ddigidol sylweddolwyd hefyd nad oedd digon o gapasiti yn ein hadran gyfieithu a wnaeth arwain at benderfyniad i benodi cyfieithydd ychwanegol.

[Coleg Addysg Bellach /Iiwch](#)

Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU: cynnig darpariaeth gwasanaethau ar-lein newydd ar fyr rybudd

Cyhoeddwyd gwasanaethau newydd ar-lein gan Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU yn ystod misoedd cyntaf y pandemig yn 2020. Roedd y datblygiadau eisoes ar y gweill fel rhan o ymrwymiad yr Adran i wella lefelau boddhad cwsmeriaid ond cyflwynwyd y rhaglen waith ar gychwyn y pandemig.

Cafodd y system sy'n galluogi gwneud ceisiadau am Gredyd Pensiwn ar-lein ei hadeiladu mewn cwta 4 wythnos i alluogi'r gwasanaeth Credyd Pensiwn fynd yn fyw ar-lein ym mis Mai 2020. Nodwyd gan yr Adran nad oedd yn bosibl lansio'r gwasanaeth Cymraeg yr un pryd o ystyried yr amserlenni heriol ond cafodd ei lansio yn fuan wedi hynny ddiwedd Mai 2020 ar ôl cyfnod o'i brofi.

Oherwydd y pandemig roedd gwasanaethau eraill yn canolbwyntio eu sylw ar weithredu gwasanaethau ar-lein, gan gynnwys 'Gwneud cais am NS ESA ar-lein', 'Gwneud cais am NINO' ac 'Ad-dalu Fy Nyled'. Gweithiodd Uned Gymraeg yr Adran Gwaith a Phensiynau yn agos â'r timau prosiect perthnasol i sicrhau bod fersiynau Cymraeg o'r gwasanaethau hyn ar gael hefyd.

Mae Covid-19 wedi cael effaith enfawr ar lawer o'r farchnad lafur, wrth i rai sectorau leihau mewn maint ac i eraill gynyddu'n gyflym. Er mwyn helpu ceiswyr gwaith i ddod o hyd i waith mewn sectorau newydd a chyflogwyr i gael hyd i'r gweithwyr sydd ar gael, lansiodd dwy wefan allanol newydd gan yr Adran hefyd: help swyddi a helpu cyflogwyr. Mae'r gwefannau hyn yn cynnig gwybodaeth am y farchnad lafur i bobl sy'n chwilio am waith nawr a chynghor i gyflogwyr er mwyn eu helpu i'w recriwtio. Gwnaeth Uned y Gymraeg weithio â'r Tîm Cyfathrebu Strategol i sicrhau bod fersiynau Cymraeg o'r gwefannau hyn, yn ogystal â'r holl asedau, trydariadau, a pheynnau cymorth, ar gael ac i ddiweddariadau gael eu gwneud yn brydlon.

Ychwanegwyd gwefan ategol newydd i GOV.UK i helpu pobl i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am Covid-19 a hawlio budd-daliadau. Mae 'Beth yw Credyd Cynhwysol?' yn helpu defnyddwyr i ddeall beth gallai eu cefnogi os ydynt ar incwm isel neu'n ddi-waith. Eto gweithiodd Uned y Gymraeg â'r tîm oedd yn gyfrifol am y wefan hon i sicrhau bod fersiwn Cymraeg ar gael hefyd.

Yn ddiweddarach o ganlyniad i Covid, cyflwynwyd cynllun *Kickstart* i helpu pobl rhwng 16-24 oed i ennill sgiliau i'w helpu i gael swyddi yn y dyfodol. Cefnogwyd y tîm oedd yn gyfrifol am y prosiect gan Uned y Gymraeg i sicrhau bod yr holl gynhyrchion, cyfarwyddyd, gwybodaeth ayyb, ar gael ar wefan GOV.UK a bod y porth i gyflogwyr/Porth *Kickstart* i wneud cais am y grant, i greu lleoliadau gwaith, ar gael yn y Gymraeg hefyd.

Adroddwyd bod y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS), sy'n un o'r cyrff cyhoeddus anadrannol y mae Uned y Gymraeg yr Adran Gwaith a Phensiynau yn eu cefnogi hefyd wedi cyflwyno gwefan newydd o'r enw HelpwrArian, ac o ganlyniad cafwyd swm aruthrol

o destun i'w gyfieithu yn ystod y flwyddyn, gyda newidiadau rheolaidd i gynnwys cyfredol a chynnwys newydd am Covid ar eu gwefan.

Mae arfer yn amlygu bod modd ymateb ar frys a chyflwyno gwasanaethau newydd ar-lein yn Gymraeg a bod hynny'n gallu llwyddo wrth ystyried y Gymraeg o'r cychwyn wrth roi prosiectau ar waith. Mae'n dangos hefyd bod sefydliad sydd wedi sefydlu prosesau hunan reoleiddio cadarn ac sy'n darparu'r adnoddau angenrheidiol, megis Uned y Gymraeg yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn gallu goresgyn anawsterau - roedd eu darpariaeth Gymraeg yn ddigon gwydn i beidio cael ei effeithio'n andwyol ac roeddent yn llwyddo i barhau i gydymffurfio â'u dyletswyddau yn ystod y cyfnod heriol.

Cwyn ynghylch cyhoeddi gwybodaeth ar wefan

Mae'r Cyngor lleol wedi cyhoeddi nifer o dudalennau yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r pandemig COVID-19 yn Saesneg yn unig ar ei wefan.

Aelod o'r cyhoedd, Mehefin 2020

Cyflwynwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd gwybodaeth am Covid-19 ar gael yn Gymraeg ar nifer o dudalennau a dogfennau gwefan ei gyngor lleol. Penderfynodd y Comisiynydd ymchwilio i'r gŵyn oherwydd nad oedd y cyngor wedi darparu unrhyw sylwadau am amgylchiadau'r gŵyn a bod archwiliad yn cadarnhau fod y sefydliad wedi parhau i ddiweddarau'r wefan mor ddiweddar ag Awst 2020. Roedd yn cyflwyno amheuaeth bod y gŵyn yn symptom o arfer systemig a bod penderfyniad bwriadus wedi ei gymryd i ddangos, ac i barhau i ddangos, gwybodaeth yn Saesneg ar fersiwn Gymraeg y wefan.

Roedd y cyngor yn cydnabod bod y cyfnod wedi bod yn un heriol wrth iddo ail-neilltuo cyfrifoldebau i'w staff o ganlyniad i'r pandemig, a bod dyletswydd arno i rannu gwybodaeth â'r cyhoedd cyn gynted â phosib. Nodwyd ei bod yn ymddangos bod y cyngor wedi cael ei lethu gan y sefyllfa a'i bod yn glir bod yr uned gyfieithu ynghlwm â'r gwaith o baratoi gwybodaeth ar gyfer y wefan ar frys, ond nad oedd capasiti digonol i gyfieithu popeth oherwydd maint y dasg. Nodwyd fod uwch reolaeth y cyngor wedi casglu ei bod yn bwysicach bwrw ymlaen i osod gwybodaeth yn Saesneg ar y wefan Gymraeg yn hytrach na disgwyl i'w gyfieithu.

Mae'r ymchwiliad wedi amlygu pwysigrwydd sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei roi i effaith penderfyniadau ar y Gymraeg a diwygio cynlluniau a strategaethau ymateb i argyfwng. Mae'n dangos y dylid rhoi ystyriaeth benodol i ddigonolrwydd trefniadau cyfieithu i

sicrhau eu bod yn medru dygymod mewn cyfnodau pan fo llwyth gwaith yn uwch na'r arfer. Amlygwyd bwysigrwydd pennu proses ar gyfer blaenoriaethu mathau penodol o wybodaeth lle bo capasiti'r gwasanaeth cyfieithu wedi ei effeithio, fel mewn sefyllfa o bandemig. Pwysleisia'r ymchwiliad hefyd werth cynnal archwiliadau rheolaidd o wasanaeth er mwyn hunan reoleiddio a phrofi cydymffurfedd, a bod mewn sefyllfa i ragweld a delio yn well gydag unrhyw anawsterau sy'n codi oherwydd y pandemig.

Darpariaeth newydd

3.17 Nododd rhai sefydliadau eu bod wedi cynyddu eu darpariaeth ar-lein yn ystod y cyfnod clo, gan gynnwys ffurflenni cais ac apiau, a bod y ddarpariaeth newydd ar gael yn Gymraeg. Mewn rhai amgylchiadau cafodd y gwasanaethau Gymraeg eu darparu ar ôl y gwasanaeth Saesneg. Roeddent yn amrywio o wasanaethau ar-lein proffil uchel a oedd yn effeithio ar nifer fawr o unigolion i dechnoleg sgwrsio byw nad oedd yn cael ei defnyddio o'r blaen.

Mae llawer o wasanaethau a chynnwys wedi'u symud ar-lein dros y pandemig, ac felly mae cynnydd wedi bod yn y galw am ddeunydd ar-lein. Mae mwy o fideos wedi'u cynhyrchu, gyda phwyslais ar recordio fersiynau Gymraeg a Saesneg yn hytrach nag is-deitlo. Mae'r pandemig wedi symud ambell broject yn ddigidol, megis project sy'n trawsgrifio deunydd archif Gymraeg. Caiff dogfennau eu sganio'n awtomatig, ac unrhyw gamgymeriadau eu cywiro, a bydd y project yn gyfrifol am gynyddu faint o ddeunydd Gymraeg sydd i'w gael ar y we.

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru

Cyflwynwyd gwasanaeth sgwrsio ar-lein newydd yn ystod y pandemig ac mae hwn ar gael naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Mae'r tîm sy'n gweithio ar y gwasanaeth sgwrsio yn cynnwys aelodau staff sy'n siarad Gymraeg, ac ymatebir i ymholiadau Gymraeg yn Gymraeg.

Coleg Addysg Bellach/Uwch

Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlysoedd Ei Mawrhydi: cynnal gwrandawiaidau rhithiol gyda darpariaeth cyfieithu ar y pryd angen gosod rhywle perthnasol yng nghorff yr adran

Er mwyn sicrhau bod yr hawl i siarad Gymraeg mewn gwrandawiad Llys yn cael ei gynnal wrth iddynt gael eu cynnal yn rhithiol, bu'n rhaid i'r Gwasanaeth adolygu ei drefniadau i gyfieithu ar y pryd o'i waith. Trwy gydweithio gyda'r Farnwriaeth Gymraeg llwyddwyd i sicrhau hynny a defnyddio cyfuniad o CVP (platform cwmwl fideo) a galwad ffôn ar *BTMeetMe* ar gyfer y cyfieithu. Ar ôl cymeradwyo'r broses cafodd y cyfieithwyr gyfle i arfer gyda'r system a lluniwyd cyfarwyddiadau cynhwysfawr sut i'w defnyddio.

Yn ddiweddarach gwnaed gwelliannau pellach er mwyn gwella profiad y defnyddiwr fel bod yr angen am linell BT ar wahân yn cael ei ddileu. Roedd hyn yn golygu defnyddio senario fideo dwy ystafell, yn debyg i sut mae cyfieithu ar y pryd yn gweithio ar Zoom.

Mae'r arfer yn amlygu bod y sefydliad wedi llwyddo i gyflwyno gwasanaethau ar-lein yn Gymraeg ar frys gan ddefnyddio technoleg oedd yn newydd sbon iddynt ar y pryd. Mae'n dangos hefyd bwysigrwydd cael proses hunan reoleiddio cadarn sy'n gallu rhagweld a delio gydag anawsterau sy'n codi, gan ganiatáu i drefniadau parhad busnes gael eu cyflwyno heb oedi a chaniatáu i'r Gwasanaeth barhau i gydymffurfio â'i ddyletswyddau.

- 3.18 Nododd rhai sefydliadau fodd bynnag fod gwasanaethau ar-lein newydd wedi eu cyflwyno ond fod rhwystrau wedi bod i wneud y rhain ar gael yn Gymraeg.

Mae gwasanaethau ar-lein wedi bod ar gael yn y Gymraeg ond cafwyd peth anhawster ar y dechrau i hyrwyddo a chael mynediad at blatfform cyfrwng Cymraeg a osodwyd ar wefan y Brifysgol ar gyfer y diwrnodau clirio a'r diwrnodau agored. Llwyddwyd i ddatrys y broblem gan gynyddu niferoedd a oedd yn ymweld â'r fersiwn Gymraeg.

Prifysgol

Bu'n rhaid symud yr holl weithgaredd recriwtio myfyrwyr ar-lein. Bu i staff ei chael hi'n heriol sicrhau fod presenoldeb y Gymraeg yn amlwg mewn, er enghraifft, dyddiadur agored rhithiol. Roedd y system a ddefnyddid yn Saesneg.

Prifysgol

Mae un feddygfa dan reolaeth y Bwrdd Iechyd yn adrodd eu bod yn defnyddio AccuRx i gyfathrebu gyda chleifion drwy linc fideo. Mae llawer o opsiynau gyda'r feddalwedd yma i fedru anfon gwybodaeth i gleifion yn syth drwy'r system yma o ran darparu cyngor gyda'u cyflwr iechyd, ond nid yw rhain ar gael yn y Gymraeg.

Bwrdd Iechyd

Llywodraeth Cymru ac Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth y DU: Ap Profi ac Orlhain NHS COVID-19

Cyhoeddwyd Ap Profi ac Orlhain NHS Covid-19 ar frys ym mis Mai 2020 at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru a hynny yn sgil trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Ar y pryd roedd y ddau Lywodraeth yn y broses o gytuno memorandwm dealltwriaeth ynghylch eu ffordd o weithio ac roedd darparu gwasanaethau yn Gymraeg wedi ei gynnwys fel elfen hanfodol ohono.

Pan lansiwyd yr Ap roedd modd i unigolion ei gyrchu a'i ddefnyddio yn Gymraeg yn gwbl ddi-rwystr o'r cychwyn os oedd y Gymraeg wedi'i gosod yn iaith ddiofyn eu dyfais.

Derbyniodd y Comisiynydd nifer o gwynion ynghylch yr Ap gan unigolion nad oedd yn ymwybodol o'r angen i osod y Gymraeg fel iaith ddiofyn eu dyfais neu oedd â dyfeisiadau oedd yn rhy hen i'r Ap weithredu arnynt – roeddent o ganlyniad wedi cymryd yn ganiataol nad oedd y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg.

Roedd yn ymddangos nad oedd Llywodraeth y DU na Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn ddigonol cyn lansio'r Ap i egluro'r cyfyngiadau a rheoli disgwyliadau, a phwysleisio y byddai'r gwasanaeth ond ar gael yn llawn yn Gymraeg os oedd gosodiadau'r ddyfais yn caniatáu hynny ymlaen llaw.

Roedd hefyd yn aneglur ar y pryd pwy oedd a chyfrifoldeb am y ddarpariaeth i'r cyhoedd yng Nghymru gan mai'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU oedd cyhoeddwr yr Ap ond bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r adran ar y trefniadau yng Nghymru. Ym mis Tachwedd cadarnhawyd gan Lywodraeth Cymru y byddent hwy'n derbyn cyfrifoldeb am wasanaethau Profi Olrhain Diogelu.

Mae Ap Profi ac Olrhain NHS Covid-19 yn enghraifft o wasanaeth Cymraeg proffil uchel sydd ar gael i ddinasyddion Cymru. Mae'n amlygu sut gall cydweithio rhwng y Llywodraethau gael effaith gadarnhaol o ran y Gymraeg a sut gall dyletswyddau statudol safonau'r Gymraeg Gweinidogion Cymru ddylanwad ar ddarpariaeth gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi ar eu rhan gan Lywodraeth y DU.

Cyfryngau cymdeithasol

3.19 Yn y mwyafrif o achosion, nododd sefydliadau na effeithiodd y pandemig ar eu gallu i ddarparu negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, gyda rhai sefydliadau'n cyfeirio at bwysigrwydd gwasanaethau cyfieithu hyblyg, neu argaeledd siaradwyr Cymraeg. Nododd rhai sefydliadau i rai negeseuon gael eu cyhoeddi yn Saesneg yn unig,

Parhaodd yr holl ohebiaeth cyfryngau cymdeithasol i fod yn Gymraeg a Saesneg trwy gydol y cyfnod clo. Penododd y coleg Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol newydd yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r ymgeisydd llwyddiannus yn siaradwr Cymraeg rhugl a lwyddodd i barhau i ddarparu negeseuon ar draws y Cyfryngau Cymdeithasol yn Gymraeg.

Coleg Addysg Bellach/Uwch

Mae llawer o'r negeseuon ar ein cyfryngau cymdeithasol wedi'u hysgrifennu'n ddwyieithog gan swyddogion o fewn y tîm marchnata - mae pob un ohonynt wedi parhau i weithio'n llawn amser o adref trwy'r pandemig. Lle bo angen, mae'r tîm cyfieithu wrth law i ddarparu cefnogaeth.

Coleg Addysg Bellach/Uwch

neu fod oedi wrth gyhoeddi'r fersiwn Cymraeg, yn sgil anallu i gael cyfieithiad yn ddigon cyflym. Cyfeiriodd nifer o sefydliadau at fwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr yn ystod y pandemig.

Er ein bod yn parhau i gyhoeddi negeseuon yn Gymraeg a Saesneg mae'r pandemig wedi effeithio ar ein gallu i wneud cyfweiliadau wyneb yn wyneb a chlipiau fideo ar y safle... mae adegau lle bu'n rhaid cyhoeddi rhai negeseuon yn Saesneg yn unig (gan fod y rhain allan o oriau busnes craidd lle nad oes unrhyw gyfieithiad Cymraeg yn bosibl ac yn ymwneud â sefyllfaoedd brys). Yna, caiff y cynnwys hwn ei ddiweddarau gyda chynnwys Cymraeg cyfatebol fel y bo'n briodol. O ran negeseuon brys ar-lein, rydym yn lliniaru'r sefyllfa drwy sicrhau bod ein hystorfa o negeseuon rheolaidd wedi ac yn parhau i gael ei datblygu yn y ddwy iaith.

[Awdurdod Heddlu](#)

3.20 Dywedodd rhai sefydliadau fod negeseuon cyfryngau cymdeithasol ar gael yn Gymraeg fel arfer ond fod rhai sefyllfaoedd lle na ddigwyddodd hyn fel y dylai.

3.21 Nodwyd gan rai sefydliadau nad oedd mwyafrif eu cyfathrebiadau ynghylch Covid-19 ar gael yn Gymraeg.

Cyhoeddwyd y rhan fwyaf o'n negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn Saesneg yn unig, yn bennaf oherwydd yr angen i'r wybodaeth gael ei rhannu ar frys a dehongliad yr ohebiaeth anfonwyd gan y Comisiynydd.

[Awdurdod Lleol](#)

Roedd cyfathrebu ar gyfryngau cymdeithasol yn Saesneg yn unig yn [y Ganolfan]. Roedd y rhain yn benodol i Covid yn ymwneud â swyddi gwybodaeth i gleifion a fideos yn rhoi cyngor. Mae'r rhan fwyaf o'r fideos hyn bellach wedi'u is-deitlo ac maent ar gael ar-lein.

[Sefydliad GIG Cymru](#)

Gwnaed pob ymdrech i ddarparu pob cyhoeddiad yn Gymraeg ar y pryd, ond oherwydd brys y sefyllfa, roedd yn rhaid cyhoeddi rhai negeseuon tra bod y cyfieithiad ar y gweill, gyda'r Gymraeg yn cael ei hychwanegu cyn gynted â phosibl ar ôl hyn. Nid yw hyn yn wir mwyach.

[Awdurdod Lleol](#)

Cafwyd digwyddiad lle y cyhoeddwyd gwybodaeth frys cyn i'r cyfieithiad fod ar gael. Roedd hyn oherwydd faint o wybodaeth yr oedd angen ei rhaedru i'r cyhoedd a'r graddfeydd amser byr i sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu.

[Awdurdod Lleol](#)

3.22 Nododd rhai sefydliadau fod pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth cyfieithu wedi arwain at drafferthion i gyhoeddi a nododd nifer eu bod wedi defnyddio mwy ar gyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod y cyfnod.

Gwasanaethau cyfieithu

3.23 Nododd mwyafrif o sefydliadau i'w gwasanaethau cyfieithu barhau fel arfer yn ystod y pandemig, gan alluogi darparu testun yn Gymraeg. Mae'n glir o ymatebion nifer o sefydliadau fod yr angen i gyfieithu symiau mawr o destun ar frys wedi rhoi pwysau mawr ar wasanaethau cyfieithu, ond nad oedd hynny bob amser wedi cael effaith ar y ddarpariaeth i ddefnyddwyr.

3.24 Arweiniodd y pwysau ychwanegol at rai sefydliadau'n datblygu eu trefniadau cyfieithu, er enghraifft drwy benodi staff ychwanegol neu wella prosesau, a chyfeiriodd Llywodraeth Cymru'n benodol at addasu ffyrdd o weithio a defnyddio datrysiadau technegol i weithio'n fwy effeithlon.

3.25 Nododd nifer o sefydliadau iddynt weld cynnydd yn y llwyth gwaith cyfieithu.

Rydym yn dibynnu ar ein cyfieithwyr sydd wedi'u contractio'n allanol i allu darparu cyfieithiad amserol ar gyfer datganiadau'r cyfryngau a diweddariadau eraill sy'n cael eu rhyddhau drwy'r Adran Gyfathrebu a'r Cyfryngau. Mae'r pandemig wedi creu heriau i'n darparwr/darparwyr mewn perthynas â delio â cheisiadau ar fyr rybudd - ac o ganlyniad mae rhai o'n diweddariadau wedi bod yn Saesneg yn unig gyda'r Gymraeg yn dilyn ychydig amser yn ddiweddarach cyn gynted ag y darperir y cyfieithiad. Mae natur y pandemig sy'n esblygu'n gyflym hefyd wedi gofyn am lawer o gyngor/canllawiau/rheolau sy'n newid sy'n aml yn cael eu cyhoeddi heb fawr ddim rhybudd. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg ond mae hyn wedi bod yn heriol ar adegau.

Awdurdod Heddlu

Rydym yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig i Gynghorau Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Bu cyfnod eithaf tawel o rai o'r siroedd am gyfnod byr ym mis Mehefin, ond ni wnaeth hynny bara mwy nag ychydig wythnosau. Ar y cyfan, yr unig wahaniaeth a welsom gyda'r gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig, yw ein bod yn brysurach nac erioed yn ystod y rhan fwyaf o'r pandemig.

Awdurdod Lleol

Cafwyd digwyddiad lle y cyhoeddwyd gwybodaeth frys cyn i'r cyfieithiad fod ar gael. Roedd hyn oherwydd faint o wybodaeth yr oedd angen ei rhaedru i'r cyhoedd a'r graddfeydd amser byr i sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu.

Awdurdod Lleol

Defnydd o wasanaethau Cymraeg

- 3.26 Nid oedd patrwm cyson wedi ei adrodd o ran effaith y pandemig ar faint y defnydd o wasanaethau Cymraeg – rhai sefydliadau yn nodi fod cynnydd a nifer unai fod yr effaith ar y defnydd o wasanaethau Cymraeg yn debyg i'r effaith ar y defnydd o wasanaethau

Fe wnaethom lansio ymgyrch ddwyieithog ym mis Mawrth 2020, oedd yn rhoi cyngor i bobl ar sut i gadw mewn cysylltiad yn y cartref yn ystod pandemig y Coronafeirws. Roedd gennym hefyd ymgyrch hysbysebu ddwyieithog dros gyfnod o ddeg wythnos ar gyfryngau cymdeithasol ac ar orsafoedd radio masnachol lleol yng Nghymru. Dangosodd astudiaeth gan ein hasiantaeth allanol bod mwy o ymgysylltiad â'r cynnwys Cymraeg na'r cynnwys Saesneg ar gyfryngau cymdeithasol drwy gydol yr ymgyrch yng Nghymru, gyda chyfradd clicio drwedd uchel o 0.15%. Llwyddodd ein fideo gyhoeddwyd ym Mehefin 2020 i ddenu dros 800 o wylwyr ar ein cyfrif Twitter Cymraeg sydd â 305 o ddilynwyr - ffigur calonogol iawn o gymharu gyda'r fersiwn Saesneg cafodd tua 1700 o wylwyr dros yr un cyfnod er bod gan y cyfrif 50.5k o ddilynwyr.

[Corff a noddir gan Lywodraeth y DU](#)

Arweiniodd cau'r Coleg at lawer llai o ymholiadau nag arfer. Er ei bod yn ymddangos bod yr effeithiau yr un peth ag ar gyfer y Saesneg, nid yw maint yr effaith ar y Gymraeg yn hysbys yn union. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch darpariaeth gwasanaeth Cymraeg y Coleg ac mae'r nifer sy'n ddefnyddio yn gyffredinol yn parhau i fod yn isel.

[Coleg Addysg Bellach/Uwch](#)

Pan oedd y pandemig ar ei anterth, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl a oedd eisiau cyngor ac arweiniad gan ein timau gwasanaethau myfyrwyr a gwasanaethau cwsmeriaid, a wnaeth yn ei dro, roi llawer o bwysau ar ein llinellau ffôn a blychau e-bost. Roedd effaith hynny, fodd bynnag, yr un fath i'r gwasanaeth Cymraeg a'r gwasanaeth Saesneg.

[Coleg Addysg Bellach/Uwch](#)

O ganol Mawrth hyd ddiwedd Ebrill cafodd yr Adran dros 1.8 miliwn o geisiadau ledled y DU (55,000 fyddem yn ei ddisgwyl mewn wythnos arferol). Cynyddodd nifer y rhai oedd wedi dewis defnyddio'r Gymraeg o ychydig dan 1,000 cyn Covid i dros 3,000. Gwelodd ein timau teleffoni dwf anferth mewn ymholiadau a cheisiadau newydd yn Gymraeg a Saesneg. Roedd angen rhoi ein cynlluniau cadarn parhad busnes ar waith er mwyn galluogi'r Adran i wneud hyn.

[Adran o Lywodraeth y DU](#)

Saesneg neu nad oedd unrhyw effaith o gwbl.

3.27 Roedd ymatebion rhai sefydliadau'n awgrymu nad ydynt yn rhoi ystyriaeth fel mater o drefn i faint o ddefnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg.

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn cynnig gwasanaethau Cymraeg cynhwysfawr ar-lein ar frys

Cyflwynwyd nifer fawr o wasanaethau ar-lein newydd ar frys mawr gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn ystod cyfnod y pandemig, gan adeiladu ar y gwasanaethau dwyieithog llwyddiannus y mae CThEM eisoes yn eu cynnig. Roeddent yn cynnwys:

- y Cynllun Cadw Swyddi yn sgil Coronafeirws (CJRS)/y cynllun ffyrlo (i gyflogwyr)
- y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth (SEISS) (i'r hunangyflogedig)
- y Cynllun Ad-dalu Tâl Salwch Statudol (i gyflogwyr)
- y Cynllun TAW Ohiriedig (i fusnesau)
- Bwyta Allan i Helpu Allan (i fusnesau lletygarwch)

Adroddwyd gan y corff fod ei adnabyddiaeth dda o'i gwsmeriaid a'u harferion cyn y pandemig, o ran eu defnydd o'r Gymraeg wrth ddelio â CThEM, yn greiddiol i'w lwyddiant o ran blaenoriaethu gwaith cyfieithu er mwyn datblygu a darparu gwasanaethau yn Gymraeg ar frys.

Darparwyd canllawiau cynhwysfawr ar y we yn Gymraeg a chymorth dros y ffôn ar y llinell Gymraeg yr oedd cwsmeriaid Cymraeg wedi arfer ei defnyddio.

Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Cymraeg CThEM: 'Roeddem yn gwybod fod gennym o leiaf 5,000 o gwsmeriaid y cynllun i'r hunangyflogedig a fyddai'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth ar-lein yn Gymraeg, gan eu bod nhw wedi arfer cyflwyno a darparu ffeiliau i ni yn Gymraeg ar lein – felly penderfynwyd datblygu'r gwasanaeth hwn yn gyntaf, ac aeth yn fyw ar yr un pryd â'r gwasanaeth ar-lein yn Saesneg.

Roeddem yn gwybod hefyd fod gennym tua 320 o gyflogwyr sy'n defnyddio ein dewis iaith Gymraeg ac sy'n tueddu i gysylltu â ni dros y ffôn neu drwy e-bost. Oherwydd bod y gwasanaeth hawlio ar-lein drwy'r Cynllun Cadw Swyddi wedi ei sefydlu mewn nifer digynsail o wythnosau, doedd dim modd ei gyfieithu ar unwaith, felly gwnaethom sicrhau y gallai cyflogwyr ein ffonio a gwneud yr hawliad yn Gymraeg dros y ffôn yn lle ar-lein. Roedd y canllawiau oedd ar gael yn Gymraeg ar y we yn ei gwneud yn glir bod modd i gwsmeriaid ddefnyddio'r opsiwn ffôn i wneud eu hawliadau ffyrlo, ac anfonom e-byst yn esbonio'r sefyllfa a'r cymorth a oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.'

Roedd Swyddog Iaith Gymraeg y corff yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau ei bod yn cysylltu gyda staff allweddol a oedd yn gyfrifol am ddatblygu a darparu'r gwasanaethau o'r cychwyn. Drwy gyswllt dyddiol ac wythnosol rheolaidd, sicrhaodd fod deunyddiau Cymraeg yn cael eu darparu ar yr un pryd ag unrhyw fersiynau Saesneg. Roedd cadw cyswllt rheolaidd yn sicrhau fod yr angen i wasanaethau Cymraeg fod ar gael ar yr un pryd â'r gwasanaethau Saesneg yn cael ei fodloni. Gwnaed yn glir nad oedd unrhyw

resymau dros fethu goresgyn anawsterau, ac fe'i gwnaed yn hawdd i'r datblygwyr gael hyd i adnoddau ac atebion.

Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 gwnaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi:

- dderbyn dros 20,000 o alwadau yn Gymraeg
- dderbyn dros 1,200 o e-byst yn Gymraeg
- brosesu ac ymateb i dros 5,300 o lythyrau a ffurflenni yn Gymraeg
- gyfieithu dros 2.4 miliwn o eiriau i'r Gymraeg
- gofrestru bron i 1 miliwn o ymweliadau â thudalennau eu gwasanaethau Cymraeg ar-lein - dwbl ymweliadau'r flwyddyn flaenorol
- ddarparu hysbysebion y talwyd amdanynt, a gwneud 1.24 miliwn o argraffiadau
- bostio negeseuon allweddol ar y cyfryngau cymdeithasol i dros 400,000 o ddilynwyr
- anfon e-byst bob pythefnos ynghylch yr holl gymorth sydd ar gael i gyflogwyr ac asiantau

Llwyddwyd i ddarparu'r holl wasanaethau yn Gymraeg a Saesneg mewn cyfnod o wythnosau, o'i gymharu â chwe mis neu fwy sydd eu hangen fel arfer. Adroddwyd gan lefarydd ar ran gwasanaeth Cymraeg CThEM:

'Yn allweddol i'r holl ddarpariaeth hon fu cael swyddog Cymraeg penodedig ac adnoddau Cymraeg pwrpasol i oruchwylio a gweithio gydag eraill ym meysydd gwahanol y busnes i ddarparu'r gwasanaeth hwn, er gwaethaf heriau o ran cyfyngiadau amser. Gall y swyddog hwyluso pethau a lleddfau unrhyw broblemau gan ei bod yn adnabod y sylfaen cwsmeriaid Cymraeg - mae'n arbenigwraig yn hynny o beth. Mae'n gwybod sut y gellir cyflwyno'r gwahanol elfennau o'r gwasanaethau Cymraeg yn brydlon. Mae'n gweithio'n gyflym gydag eraill i ddatrys unrhyw atalfeydd neu broblemau. Mae angen i'r person hwn fod yn gadarn, yn wybodus ac yn ffynnu ar waith i ddelio ag anawsterau. Rhaid i'r unigolyn allu gweld drwy broblemau, a gweithio'n agos ac yn gydweithredol gyda llawer o randdeiliaid i gydlynu'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth.'

Mae'r arfer hon yn amlygu sut y gwnaeth CThEM lwyddo i ymateb ar frys a chyflwyno gwasanaethau ar-lein newydd yn Gymraeg yn ystod y pandemig trwy ystyried yr iaith o'r cychwyn cyntaf, yn ogystal â chynnal gwasanaethau Cymraeg a oedd yn bodoli eisoes. Mae'n dangos hefyd fod corff sydd â phrosesau hunanreoleiddio cadarn, a swyddog penodedig yn gyfrifol am wasanaethau Cymraeg sy'n gallu dylanwadu'n effeithiol ar draws y sefydliad, wedi hwyluso goresgyn anawsterau er mwyn cynnal cydymffurfedd yn ystod cyfnod heriol.

4 Effaith COVID-19 ar drefniadau mewnol sefydliadau

- 4.1 Yn ogystal â gwahodd sefydliadau cyhoeddus i ddarparu gwybodaeth am effaith y pandemig ar eu gwasanaethau Cymraeg, roedd arolwg y Comisiynydd yn gofyn iddynt hefyd am sylwadau ar yr effaith ar eu trefniadau mewnol i oruchwylio'u cydymffurfedd gyda'u dyletswyddau statudol. Fe'i holwyd am yr adnoddau oedd ar gael iddynt i ymgymryd â'r gwaith yn ogystal â'r effaith ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg ac mae'r dystiolaeth ansoddol dderbyniwyd o gymorth wrth ystyried digonolrwydd prosesau hunan reoleiddio sefydliadau a'u gallu i ddelio gydag anawsterau oedd yn codi yn ystod cyfnod heriol y pandemig.

Goruchwylio cydymffurfiaeth

Trefniadau llywodraethiant

- 4.2 Adroddwyd gan sefydliadau eu bod wedi sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei hystyried fel rhan o drefniadau cyffredinol y sefydliad ar gyfer parhad busnes yn ystod y pandemig. Nododd nifer o sefydliadau fod eu cynllun parhad busnes corfforaethol yn cynnwys neu wedi ystyried y ddarpariaeth Gymraeg. Roedd rhai wedi mabwysiadu cynllun parhad busnes penodol ar gyfer y Gymraeg.

Mae cydymffurfiaeth barhaus y Cyngor â safonau'r Gymraeg wedi parhau i fod yn rhan annatod o unrhyw ystyriaeth ym mhob un o gynlluniau parhad busnes a chynlluniau wrth gefn y Cyngor.

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru

Roedd cynlluniau chwarterol ymateb Covid yn destun asesiad effaith cydraddoldeb sy'n cynnwys rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg ... maent yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd.

Bwrdd Iechyd

Roedd y Gymraeg yn rhan o'r prosesau llywodraethu yn ystod y pandemig, ac mae'n parhau i gael ei hystyried fel rhan o'n prosesau drwy ein gwaith asesu effaith. Gwnaethpwyd rhai newidiadau ymarferol, er enghraifft adolygu'n prosesau cyfieithu er mwyn mynd i'r afael â'r galw sylweddol mewn rhai meysydd.

Prifysgol

Roeddem wedi trefnu gyda'n cyfieithwyr bod rheolwyr yr asiantaeth ar gael tu allan i oriau gwaith os oedd angen gwaith cyfieithu a phrawf ddarllen brys.

Corff a noddir gan Lywodraeth y DU

- 4.3 Roedd y mwyafrif o'r sefydliadau a ymatebodd i'r arolwg yn nodi nad oeddent wedi mabwysiadu unrhyw drefniadau llywodraethiant arbennig i sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei hystyried yn ystod y pandemig. Nodwyd gan rai ohonynt fod hynny oherwydd eu bod yn hyderus yn y trefniadau oedd eisoes mewn lle a'u bod wedi parhau i'w gweithredu.

Adnodd swyddog sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg

- 4.4 Nodwyd gan y mwyafrif o'r sefydliadau a ymatebodd i'r arolwg nad oedd unrhyw effaith ar yr adnoddau oedd ar gael o ddydd i ddydd i barhau gyda'r gwaith yn ymwneud â'r Gymraeg. Roedd rhai wedi nodi fod effaith ar ddulliau gwaith, neu fod y gwaith yn fwy cymhleth a thrwm nag arfer. Er hyn roedd nifer o'r sefydliadau yn adrodd eu bod wedi symud eu swyddogion iaith i rolau eraill am gyfnod.

Ni wnaethom weithredu unrhyw drefniant arbennig yn ystod y pandemig, roedd wir yn fusnes yn ôl yr arfer, gyda'r gofynion ar gyfer y Gymraeg yn cael eu hystyried fel roeddynt cyn Covid. Darparwyd cefnogaeth i holl rannau'r busnes i sicrhau eu bod yn gallu cydymffurfio'n llawn â'n Cynllun Cymraeg, gyda'r tîm yn gweithio'n agos â'n cydweithwyr mewn cyfarwyddiaethau eraill.

[Adran Llywodraeth DU](#)

Gan fod y Gymraeg eisoes wedi ei sefydlu fel iaith weinyddol a darparu gwasanaethau, a bod gennym ganran mor uchel o staff yn gallu'r Gymraeg nid oedd parhad y ddarpariaeth Gymraeg yn bryder. Ni chafodd y swyddogion iaith eu symud o'u swyddi felly roedd eu cefnogaeth yn parhau.

[Awdurdod Lleol](#)

Nid yw'r Cyngor wedi gweithredu trefniadau arbennig i sicrhau ystyriaeth o'r Gymraeg. Yn hytrach rydym wedi bod yn gweithredu y trefniadau sydd eisoes yn eu lle megis rhestrau gwirio caffael, asesiadau effaith, prif-ffrydio'r Gymraeg wrth ddatblygu polisiau a gwasanaethau, a sicrhau argaeledd staff Cymraeg trwy recriwtio ac hyfforddiant.

[Awdurdod Lleol](#)

Cafodd swyddogion y Gymraeg o fewn gwasanaethau eu dargyfeirio i waith Covid-19 i gefnogi ysgolion, y rhai mwyaf agored i niwed a TTP.

Awdurdod Lleol

Cafodd y swyddog ei adleoli am bron i bedwar mis ar lefel weithredol i Wasanaeth Diogel ac Iach y Cyngor.

Awdurdod Lleol

Cafodd yr arweinydd proffesiynol ar gyfer y Gymraeg ei adleoli i gefnogi gwasanaethau hanfodol o fis Mawrth tan fis Medi.

Awdurdod Lleol

Cymerwyd cyfrifoldebau ychwanegol i ymateb i bandemig Covid-19 ac felly nid oedd yr un capasiti ar gael i weithio ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Awdurdod Lleol

Goruchwylio a chynllunio

- 4.5 Roedd rhai sefydliadau wedi ailedrych ar eu cynlluniau gweithredol arferol ar gyfer y Gymraeg a'u haddasu ar gyfer gweithredu yn ystod y cyfnod.

Cafodd Cynllun Gweithredu'r Gymraeg ei ddiweddarau ym mis Ebrill yn sgil y pandemig, a'i olygu eto ym mis Gorffennaf. Roedd hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod natur llawer o'n darpariaeth wedi newid i fod yn ddigidol.

Corff a noddur gan Lywodraeth Cymru

- 4.6 Adroddwyd gan rai sefydliadau eu bod wedi cyflwyno trefniadau gwirio cydymffurfiaeth ychwanegol ac eraill wedi parhau â threfniadau oedd eisoes mewn lle megis:

- adolygu prosesau gofal cwsmer er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.
- sicrhau bod y ffordd roeddent yn trefnu eu gweithlu'n sicrhau parhad y ddarpariaeth Gymraeg.
- cyfathrebu â staff ynghylch yr angen i barhau i gydymffurfio yn ystod y pandemig.
- sicrhau bod y gwasanaeth cyfieithu ar gael yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y tu allan i oriau arferol.
- trefniadau i sicrhau bod unrhyw wasanaethau newydd oedd yn cael eu cyflwyno ar gael yn Gymraeg.

- 4.7 Nododd mwyafrif o sefydliadau nad oedd effaith ar oruchwylio cydymffurfiaeth, ond roedd nifer yn cydnabod fod y dasg o oruchwylio'n anoddach nag arfer, yn bennaf oherwydd nad oedd modd trafod â staff yn yr un ffordd, na gwirio darpariaeth ar safleoedd.

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o Weithgor Gweithredu'r Gymraeg yr Heddlu er mwyn sicrhau bod y gwaith o ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog yn parhau i dderbyn sylw. Fel arall roedd yn 'fusnes fel arfer' o ran gwasanaethau yn Gymraeg gyda'r disgwyliad fod dewis iaith yn cael ei ddarparu fel arfer.

[Awdurdod Heddlu](#)

Roedd ein Swyddog Cydymffurfio yn cynnal archwiliad ad-hoc o'r cyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n amlwg.

[Awdurdod Lleol](#)

Roedd modd cynnal mwyafrif y broses fonitro a'r hap wirio o bell. Addaswyd yr amserlen hap wirio i ganolbwyntio ar elfennau ar-lein yn ystod y cyfnod cyfyngiadau dwys ac yna'n hap wirio elfennau mwy gweledol a chorfforol pan laciwyd y rheoliadau.

[Coleg Addysg Bellach/Uwch](#)

Gwnaethom gynnal ymarferiad 'siopwr cudd' er mwyn sicrhau nad oedd yna unrhyw amharu ar ansawdd ein gwasanaethau Cymraeg yn cynnwys ymateb i ohebiaeth, ymdrin â ffurflenni a gwasanaethau ffôn. Cawsom lefel sicrwydd uchel i'r gwasanaethau a brofwyd.

[Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru](#)

Mae'n fwy anodd goruchwylio cydymffurfiaeth, gan fod pob Swyddog yn gweithio o gartref. Mae gostyngiad sylweddol yn y gwasanaethau wyneb yn wyneb. Fodd bynnag yn ystod y cyfnod rydym wedi atgoffa Swyddogion o'u dyletswyddau, drwy gyhoeddi Canllaw Safonau: 'Yr hyn sydd angen i mi ei wneud' ac wedi rhannu hwn drwy'r Bwletin Newyddion Corfforaethol. Hefyd wedi cynnal dwy sesiwn ymwybyddiaeth iaith ar lein. Byddwn yn mynd ati cyn diwedd y flwyddyn i holi pob gwasanaeth hunanasesu eu hunain gyferbyn â gofynion y Safonau.

[Awdurdod Lleol](#)

4.8 Nodwyd gan rai sefydliadau eu bod wedi rhoi trefniadau ychwanegol ar waith, neu fod gwaith goruchwylio'n digwydd yn fwy effeithiol erbyn yr Hydref nag oedd cyn hynny.

Cafodd trefniadau goruchwylio cydymffurfiaeth ei effeithio dros y cyfnod. Oherwydd bod y tîm Cymraeg yn gweithio o adref, nid oedd yn bosib ymweld â safleoedd ac ysbytai'r Bwrdd Iechyd sydd yn rhan fawr o'r gwaith goruchwylio. Mae tîm y Gymraeg yn cynnal arolygon siopwr cudd bob chwarter sy'n cynnwys ymweld â 3 ysbyty cymuned, 3 meddygfa dan reolaeth y bwrdd iechyd a 3 adran o fewn yr ysbytai llym. Yn amlwg nid yw wedi bod yn bosibl gwneud yr arolygon yma. Hefyd, fel y nodwyd uchod, cafodd 4 aelod o'r tîm eu hadleoli i ddarparu cefnogaeth mewn adran arall o'r Bwrdd Iechyd. Oherwydd bod nifer fawr o staff eraill y gwasanaeth iechyd yn yr un sefyllfa, yn gweithio o adref ac wedi'u hadleoli neu ail hyfforddi i wneud dyletswyddau eraill, roedd yn cymryd hirach i dderbyn ymateb i negeseuon e-bost.

Bwrdd Iechyd

Rhodddwyd ateb negyddol am fod cadw golwg ar gydymffurfiaeth mewn sefydliad mawr a chymhleth yn anodd mewn cyfnod o newid mawr pan mae pawb ar wasgar. Dyw gweithio o bell ddim yn ei gwneud hi'n amhosib goruchwylio cydymffurfiaeth ond wrth i bethau sefydlogi i batrwm fwy cyson, mae angen meddwl sut mae sicrhau fod y lefel angenrheidiol o oruchwyliaeth yn cael ei gynnal.

Prifysgol

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi: rhagweld anawsterau a rhoi trefniadau parhad busnes yn eu lle er mwyn cynnal cydymffurfiaeth yn ystod y pandemig

'Roedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) wedi cynllunio yn drylwyr ymlaen llaw a chychwyn paratoi cynlluniau adfer busnes ar gyfer y tîm cyfieithu bythefnos cyn cyhoeddi'r cyfyngiadau clo. Roedd gan bob un o'r tîm hwinnw yr offer i gyflawni a chynnal busnes fel sy'n arferol o'u cartref, a threialwyd unrhyw ddulliau gweithio newydd. Roedd pob un o'r tîm yn gweithio'n llwyddiannus ac yn gyfan gwbl o gartref o ddiwrnod cyntaf y cyfnod clo.

Roedd y tîm sy'n darparu cymorth i gwsmeriaid Cymraeg yn rhan o'r treial cychwynnol i gael pawb i weithio gartref yn ddiogel. Roedd hyn yn sicrhau nad oedd ein gwasanaethau Cymraeg yn cael eu heffeithio na'u cyfyngu gan fynediad cyfyngedig i'r swyddfa. Gwnaethom gynnal y gwasanaeth cwsmeriaid ar gyfer ein cwsmeriaid Cymraeg o'r diwrnod cyntaf a thrwy gydol y pandemig.

Gwnaethom adnabod un bwlch, sef ein gallu i roi ad-daliadau â llaw lle'r oedd angen argraffu arbenigol ar gyfer sieciau, ac roedd angen bod yn y swyddfa i wneud hyn. Gwnaethom weithio'n gyflym gyda chydweithwyr cyllid i lunio proses newydd a chyswllt cwsmeriaid a oedd yn eu harwain tuag at opsiwn digidol ar gyfer ad-daliadau'n uniongyrchol i gyfrifon cwsmeriaid.'

Mae'r arfer hon yn amlygu pwysigrwydd gosod trefniadau parhad busnes cadarn yn eu lle ar gyfer gwasanaethau Cymraeg. Mae hyn er mwyn sicrhau bod effaith unrhyw amgylchiadau ar y Gymraeg yn cael eu hystyried ac y cymerir camau i sicrhau bod cydymffurfiaeth yn cael ei gynnal yn ystod cyfnodau heriol.

- 4.9 Derbyniodd y Comisiynydd nifer o ymholiadau gan sefydliadau'n nodi na fyddent yn debygol o allu cyhoeddi adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg erbyn y diwrnod gofynnol ond nid oedd yr un ohonynt yn nodi na fyddent yn gallu cyhoeddi o gwbl. O gymharu â chanlyniadau 2018-19, gwelwyd dirywiad ym mherfformiad pob un o'r setiau o reoliadau eleni o ran cyhoeddi adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg. Mae tystiolaeth o arolwg y safonau atodol gan swyddogion y Comisiynydd yn ystod Hydref 2020 yn cadarnhau mai 71% o'r sefydliadau cymwys oedd wedi llwyddo i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar amser, yn Gymraeg, oedd yn delio â'r modd yr oeddent wedi cydymffurfio yn ystod 2019-20.

Delio â chwynion

- 4.10 Prin oedd y sylwadau dderbyniwyd gan sefydliadau fel rhan o arolwg y Comisiynydd ynghylch effaith y pandemig ar drefniadau'r sefydliadau i ymdrin â chwynion. Nid oedd unrhyw sylw yn awgrymu bod sefydliadau'n derbyn nifer sylweddol o gwynion am eu darpariaeth nac yn cael anhawster delio â hwy.
- 4.11 Nododd mwyafrif y sefydliadau unai eu bod wedi parhau i ddelio â chwynion yn y modd arferol ac na fu unrhyw effaith o gwbl ar eu trefniadau neu na dderbyniwyd cwynion perthnasol yn ystod y cyfnod. Nododd rhai sefydliadau fod rhywfaint o effaith yn sgil newid trefniadau gwaith.

Cododd gweithio gartref nifer o faterion o ran cysylltu â staff yn fewnol. Roedd nifer o weithwyr hefyd wedi'u secondio i feysydd busnes eraill sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen. Roedd dyletswyddau ychwanegol, materion TG ac amryw alw cystadleuol ar staff yn golygu bod yr ymatebion [i gwynion] yn llai prydlon. Roedd staff yn gweithio gartref yn golygu ei bod yn anoddach cael sgwrs / dal i fyny, rhywbeth a fyddai wedi digwydd yn y swyddfa.

Awdurdod Lleol

Penderfyniadau polisi a hybu'r Gymraeg

- 4.12 Er bod rhai sefydliadau wedi addasu eu trefniadau ar gyfer penderfyniadau polisi'n gyffredinol, ni adroddwyd fod y pandemig wedi effeithio'n andwyol ar eu dyletswydd i ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg gan y mwyafrif. Cyfeiriodd rhai sefydliadau at welliannau yn ystod y cyfnod i brosesau ystyried effaith penderfyniadau ar y Gymraeg ac roedd nifer yn cadarnhau eu bod yn ystyried y Gymraeg o fewn proses asesiad effaith cydraddoldeb arferol y sefydliad.

4.13 Nododd mwyafrif y sefydliadau na fu newid, gyda rhai'n manylu ynghylch y prosesau wnaeth barhau yn yr un ffordd.

Mae effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg yn parhau i gael ei weinyddu trwy ddefnyddio prosesau ac adnoddau presennol y Cyngor. Nid oes gweithdrefnau newydd wedi eu sefydlu o ganlyniad i'r pandemig Covid.

[Awdurdod Lleol](#)

Mae asesiad effaith cydraddoldeb mewn lle sy'n cynnwys yr effaith y gall y penderfyniad polisi ei gael ar y Gymraeg. Mae staff wedi parhau i wneud yr asesiadau yma ar gyfer unrhyw benderfyniad polisi neu brosiect. Hyd yn hyn nid oes unrhyw asesiad wedi amlygu bod y gwaith a fwriedir yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.

[Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru](#)

Mae gennym drefniadau ar waith i sicrhau bod unrhyw brosiectau busnes neu geisiadau am newid yn ystyried a oes effaith ar y gwasanaeth Cymraeg. Mae'r broses hon wedi parhau yn ystod cyfnod y pandemig ac mae ein gweithgareddau i archwilio sut gallwn barhau i wella'r gwasanaeth Cymraeg wedi parhau drwy gydol cyfnod.

[Adran Llywodraeth y DU](#)

Trefniadau wedi eu heffeithio

4.14 Nododd rhai sefydliadau fod y pandemig wedi gwneud iddynt addasu eu trefniadau i ystyried penderfyniadau polisi'n gyffredinol, gan gael yr un effaith ar y Gymraeg ag ar faterion eraill.

Yn ystod cyfnod y pandemig, o ganlyniad i ba mor gyflym yr oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud, nid oedd polisiau/deddfwriaeth newydd a luniwyd bob amser yn caniatáu cynnal asesiadau llawn, integredig. Fodd bynnag, rhannwyd llif cyson o gyfathrebu gyda'r staff yn eu hatgoffa o'u dyletswyddau statudol i ystyried effeithiau gwneud penderfyniadau a rhoddwyd canllawiau newydd iddynt ar gymryd camau cymesur a rhesymol i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau'n ystyried effeithiau ar y Gymraeg.

[Llywodraeth Cymru](#)

Ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniadau polisi a gohiriwyd cyhoeddi Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg yn sgil COVID19 gan fod pwyllgorau wedi eu hatal.

[Awdurdod Lleol](#)

Mae'r sefydliad wedi'i roi yn ffurfiol i fodd ymateb i argyfwng, sy'n golygu bod trefniadau newydd wedi'u rhoi ar waith i wneud penderfyniadau i ddelio â'r pwysau i ymateb yn gyflym i amgylchiadau sy'n newid. Mae hyn efallai'n golygu nad yw'r llwybr tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau mor gadarn ag y byddai fel arfer.

Awdurdod Lleol

Polisi cyfredol y Cyngor yw defnyddio offeryn asesu effaith integredig er mwyn ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Yn ystod y cyfnod clo, mae yna lai o benderfyniadau polisi wedi cael eu cyflwyno yn y Cabinet, hyn oherwydd bod rhaid i wasanaethau arallgyfeirio er mwyn medru delio a cheisio rheoli'r pandemig cyfredol.

Awdurdod Lleol

Datblygiadau i drefniadau asesu effaith

4.15 Nododd rhai sefydliadau eu bod wedi datblygu eu prosesau ar gyfer ystyried effaith penderfyniadau polisi yn ystod y cyfnod.

Bu'n rhaid addasu nifer o bolisiau oherwydd cofid sydd wedi rhoi cyfle pellach i ail edrych ar effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Cyflwynwyd proses newydd gorfforaethol o ran cymeradwyo polisiau sy'n rhoi cyfle i ddefnyddio'r cyngor diweddarar' o'r Ddogfen Arfer Dda ar Lunio Polisi.

Coleg Addysg Bellach/Uwch

Yn ystod y pandemig, mae'r broses o asesu effaith polisi wedi'i ddiweddarau ac erbyn hyn mae swyddog y Gymraeg yn gweld yr holl benderfyniadau er mwyn rhoi sylwadau arnynt.

Awdurdod Lleol

Rydym yn ystyried goblygiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth unrhyw bolisi neu fenter newydd fel mater o drefn, ac nid ydym yn credu bod unrhyw benderfyniadau polisi a wnaed yn ystod y cyfnod hwn yn effeithio'n negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. O ganlyniad i ymgynghoriad diweddar Comisiynydd y Gymraeg ar Safonau'r Gymraeg, penderfynwyd ystyried a ellid gwneud ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn fwy eglur er mwyn tynnu sylw'n benodol at a fyddai'r polisi newydd yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cyngor Rheoleiddio Proffesiwn Iechyd

Bu cyfnod dros fis Ebrill a Mai lle nad oedd cyfarfodydd democrataidd y Cyngor yn cael eu cynnal, felly dirprwywyd y cyfrifoldeb penderfyniadau i'r Prif Weithredwr. Sefydlwyd Pwyllgorau Aur ac Arian er mwyn arwain ar y penderfyniadau hynny.

Mae'r cyfnod yma wedi ein caniatáu i gwblhau'r gwaith o ddatblygu Asesiad Effaith Integredig, gyda chwestiynau penodol o ran effaith penderfyniadau ar y Gymraeg. Mae dolen yn y canllawiau i Benaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr i ddogfen Comisiynydd y Gymraeg 'Safonau Llundio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'

[Awdurdod Lleol](#)

- 4.16 Nododd un bwrdd iechyd fod y pandemig wedi atal darn o waith i wella'r ystyriaeth i'r Gymraeg mewn penderfyniadau polisi ar draws sefydliadau iechyd.
- 4.17 Nododd rhai sefydliadau arall fod y pandemig wedi eu cymhell i roi ystyriaeth well i'r Gymraeg mewn penderfyniadau.

Roedd sawl adran yn adrodd bod y pandemig wedi rhoi cyfle iddynt edrych ar feysydd o'r newydd. Roedd yr ailagor yn enghraifft o hyn, wrth i weithdrefnau sydd yn eu lle ers degawdau o gwmpas orfod cael eu haddasu yn sylweddol, gyda'r Gymraeg yn ystyriaeth ganolog y tro hwn.

[Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru](#)

Mae'r diddordeb cynyddol yn yr anfantais a grëwyd gan Covid-19 yn arwain at awydd i ymestyn y ddarpariaeth o wasanaethau drwy'r ddwy iaith – megis enghraifft Zendesk a ddefnyddir fel arloesedd gweithredol i wella effaith penderfyniad polisi.

[Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru](#)

Mae gwaith wedi'i ohirio ar lunio proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn genedlaethol i Gymru, gan gynnwys asesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Mae angen hyn er mwyn gwella'r asesiadau o effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

[Bwrdd Iechyd](#)

Recriwtio gweithlu gyda sgiliau Cymraeg

- 4.18 Nododd y mwyafrif o sefydliadau na welwyd effaith ar eu gwaith o asesu'r angen am sgiliau Cymraeg wrth recriwtio. Mewn rhai achosion, nododd sefydliadau eu bod wedi cyflwyno gwelliannau i'w prosesau asesu yn ystod y cyfnod. Nodwyd gan 59 sefydliad

arall na fu newid ac roedd 3 sefydliad yn cadarnhau nad oeddent wedi cynnal asesiadau o'r angen am sgiliau Cymraeg wrth recriwtio yn ystod y cyfnod.

Gwaith ar y prosiect Dynodiadau Iaith wedi gallu cario ymlaen yn ystod y cyfnod clo a system newydd wedi ei sefydlu er mwyn monitro a nifer o gamau cadarnhaol wedi eu cymryd o fewn y cyfnod.

[Awdurdod Lleol](#)

Ni gynhaliwyd asesiadau iaith oherwydd argyfwng y sefyllfa. Roedd angen staff ychwanegol gyda sgiliau ac nid oedd iaith yn ffactor yn hyn.

[Sefydliad GIG Cymru](#)

Ar gyfer y swyddi newydd a gwag a ystyriwyd yn ystod y cyfnod clo, dilynwyd gweithdrefnau Adnoddau Dynol arferol o ran ystyried sgiliau Cymraeg.

[Awdurdod Lleol](#)

4.19 Nododd rhai sefydliadau, gan gynnwys 3 bwrdd iechyd, eu bod wedi datblygu eu trefniadau recriwtio yn ystod y cyfnod.

Mae'r gyfradd recriwtio wedi arafu tipyn yn ystod y cyfnod clo. Er hynny, rydym wedi cynnal ymgyrchoedd penodol i recriwtio i sectorau penodol e.e gofalwyr a glanhawyr. Mae'r swyddi hynny i gyd wedi'u gosod ar lefel 3 o ran sgiliau Cymraeg wrth hysbysebu. O ran y 521 o swyddi sydd wedi'u hysbysebu ers mis Ebrill 2020 tan ddechrau Hydref, roedd 394 o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn dal sgiliau uwch yn y Gymraeg na'r lefel yr hysbysebwyd y swydd. Mae hyn yn awgrymu i ni fod ymateb cadarnhaol wedi bod i'r swyddi gan siaradwyr Cymraeg yn y gymuned leol.

[Awdurdod Lleol](#)

Ni welwyd effaith gan fod trefniadau cadarn wedi eu rhoi mewn lle i sicrhau bod staff allweddol o fewn y timau Adnoddau Dynol yn gallu gweithio o bell – gan sicrhau bod trefniadau arferol yn cael eu dilyn.

[Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru](#)

Cyflwynwyd canllawiau gweithdrefnol newydd ym mis Ebrill 2020 i fodloni gofynion y Safonau Iaith Gymraeg felly bu effaith gadarnhaol trwy gydol y pandemig Covid.

[Bwrdd Iechyd](#)

Rydym ni'n ymwybodol bob amser o'r angen i recriwtio siaradwyr Cymraeg ac nid yw hynny wedi bod yn wahanol yn ystod pandemig COVID. Oherwydd yr angen i recriwtio 13,500 o weithwyr ar draws y DU i gefnogi'r cynnydd mewn ceisiadau am fudd-daliadau, rydym eto wedi gwneud ymgyrchoedd swyddi gwag penodol ar gyfer anogwyr gwaith dwyieithog (Cymraeg/Saesneg). Mae dull y recriwtio wedi newid, oherwydd y nifer cynyddol o staff sydd eu hangen. Lansiodd meicrowefan ar gyfer anogwyr gwaith i gefnogi'r ymgyrchoedd recriwtio, oedd yn darparu'r holl wybodaeth oedd ei hangen ar ymgeiswyr iddynt gael ystyried gwneud cais am y swyddi, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau swydd anogwr gwaith, gwybodaeth gefndirol ar yr Adran gwaith a phensiynau, cwestiynau cyffredin, rhestr o swyddi gwag yn ôl rhanbarth, y broses ymgeisio. Cydweithiodd ein Uned y Gymraeg gyda staff yn y timau Pobl a Gallu a SSCL i gynhyrchu fersiwn Cymraeg o'r wefan hon.

[Adran Llywodraeth y DU](#)

- 4.20 Fodd bynnag roedd y corff sy'n gyfrifol am brosesau recriwtio'r sector iechyd yn genedlaethol yn adrodd fod y pandemig wedi achosi oedi i brosiect strategol yn ymwneud â recriwtio oherwydd bod galw mawr wedi bod ac yn parhau i fod ar greu swyddi i ymateb i'r argyfwng ac mae hynny wedi rhoi pwysau anferthol ar eu timau Gweithlu a Datblygu.

Rydym yn cydnabod bod angen i ni ail-gydio yn y gwaith strategol trwy adolygu ac ail-greu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog i'r sefydliad, creu porth gwybodaeth ar dudalennau mewnwyd Gweithlu a Datblygu Sefydliad a datblygu modiwl hyfforddiant penodol i reolwyr recriwtio unai ar lein neu mewn dosbarth iddynt fod yn ymwybodol o'r hyn y disgwylir wrth i ni asesu sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi gwag.

[Sefydliad GIG Cymru](#)

Datblygu sgiliau Cymraeg

- 4.21 Adroddwyd mai cymysg oedd effaith y pandemig ar ddarpariaeth dysgu Cymraeg sefydliadau. Os oedd gwersi wedi parhau o gwbl, roedd hynny gan amlaf ar-lein, weithiau ar ôl cyfnod o oedi. Roedd darpariaeth rhai sefydliadau (yn enwedig rhai gyda niferoedd llai o ddysgwyr) wedi dod i ben.
- 4.22 Er bod rhai cyfeiriadau at drafferthion, nododd nifer o sefydliadau fod y gwersi ar-lein wedi gweithio'n dda. Nododd nifer o sefydliadau iddynt weld cynnydd yn y staff oedd yn manteisio ar y ddarpariaeth, gyda sawl awgrym fod dysgu ar-lein yn siwtio mwy o bobl yn well; roedd rhai sefydliadau ar y llaw arall, wedi gweld gostyngiad yn eu niferoedd.
- 4.23 Adroddwyd gan nifer o sefydliadau eu bod wedi sefydlu darpariaeth newydd neu ychwanegol ar gyfer dysgu Cymraeg, er enghraifft *Say Something in Welsh*, yn ystod y cyfnod, a bod yr ymateb yn gadarnhaol.

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol: arloesi i gynnig rhagor o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi ymateb i her amgylchiadau'r pandemig a galluogi dysgwyr i barhau i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn eu gweithleoedd. Ym mis Mawrth 2020, wrth i'r dysgu wyneb i wyneb ddirwyn i ben, addaswyd darpariaeth rhaglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan, rhaglen sy'n cryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle, mewn ymateb i leihad sylweddol yn y cyllid a'r sefyllfa iechyd cyhoeddus.

Ym mis Hydref 2020 cyhoeddwyd cwrs Dysgu Cymraeg hunan-astudio ar-lein am y tro cyntaf, yn cynnig i ddysgwyr ddilyn lefel gyfan ar amser cyfleus i'r unigolyn. Roedd y cwrs cyntaf hwn ar lefel Mynediad, y nod yw parhau i ddatblygu cwrs tebyg ar y lefelau eraill dros y flwyddyn i ddod.

Roedd y datblygiad yn ymateb i'r galw cynyddol am ddulliau hyblyg o ddysgu ac mae'r pwyslais o'r cychwyn cyntaf un wedi bod ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Er bod y cwrs yn un hunan-astudio, mae tiwtor yn cefnogi, gan gynnig cyngor a chymorth ac mae sesiynau sgwrsio a holi ac ateb rhithiol hefyd yn cael eu cynnal.

Erbyn diwedd Mawrth 2021 roedd dros 800 o unigolion o dros 60 o gyflogwyr, wedi cofrestru i ddilyn y cwrs newydd – y mwyafrif yn sefydliadau'r sector gyhoeddus.

Adroddwyd gan y Ganolfan fod mwy o gyflogwyr nac erioed wedi ymgysylltu â nhw yn ystod 2020-21. Mae'r cwrs wedi apelio yn fawr yn enwedig i gyflogwyr megis y byrddau iechyd, oedd yn ei chael yn anodd yn y gorffennol i ddilyn strwythur arferol o fynychu gwersi wythnosol yn y gweithle. Mae'r gallu i ddilyn cwrs ar amser sy'n gyfleus i'r dysgwr yn golygu bod y cwrs yn boblogaidd i bobl sy'n gweithio shift – carfan anodd ei chyrraedd yn draddodiadol, o ran darparu cyrsiau.

Erbyn Mawrth 2021 roedd cyllideb Cymraeg Gwaith wedi ei adfer i'r lefel blaenorol ac mae modd eto i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gynnig amrywiaeth eang o gyrsiau i gyflogwyr, gan barhau i arloesi a chynnig ystod o ddulliau dysgu wrth i gynllun Cymraeg Gwaith ddatblygu.

Defnydd mewnol o'r Gymraeg

Sgyrsiau anffurfiol

- 4.24 Roedd gwahaniaeth barn o ran effaith y pandemig ar gyfleoedd i gynnal sgyrsiau anffurfiol ac ar ddarpariaeth i ddatblygu sgiliau Cymraeg - nifer yn adrodd fod symud i weithio o adref wedi lleihau cyfleoedd i staff siarad Cymraeg â'i gilydd mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn y swyddfa, a bod hyn wedi effeithio'n arbennig ar staff oedd yn manteisio ar gyfleoedd o'r fath er mwyn gwella'u hyder.

-
- 4.25 Nododd nifer o sefydliadau fod patrymau blaenorol wedi parhau mewn sgysiau a chyfarfodydd ar-lein. Nododd nifer o sefydliadau eu bod wedi mynd ati i drefnu cyfleoedd newydd ar-lein i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol neu'n gymdeithasol.

Cyfarfodydd mewnol

- 4.26 Nododd y mwyafrif o sefydliadau nad oedd effaith ar iaith cyfarfodydd mewnol, neu fod y patrymau blaenorol wedi parhau. (Ar y cyfan, ein canfyddiad cyn cyfnod y pandemig oedd mai Saesneg oedd iaith mwyafrif helaeth cyfarfodydd mewnol yn y mwyafrif o sefydliadau).
- 4.27 Nododd rhai sefydliadau fod diffyg gallu cyfieithu ar y pryd ar blatfformau fel Teams yn rhwystr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol hefyd. Nododd ambell sefydliad eu bod wedi mynd ati i sicrhau bod staff yn gallu cymryd rhan mewn cyfarfodydd mewnol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Drafftio a gwaith ysgrifenedig

- 4.28 Nododd y mwyafrif o sefydliadau na chafod cyfnod y pandemig effaith ar arferion y gweithlu o ran iaith drafftio testun. Cyfeiriodd rhai sefydliadau at y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i staff ddrafftio yn Gymraeg, gan gynnwys mentora a phrawf ddarllen, a nododd rhai bod yr amgylchiadau wedi arwain at gynnydd mewn drafftio Cymraeg gan eu staff hwy, yn rhannol oherwydd y pwysau ar wasanaethau cyfieithu.

Atodiad 1: Sail tystiolaeth

1. Er bod casglu tystiolaeth ynghylch effaith Covid-19 ar ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg yn fwy heriol yn ystod 2020-21 oherwydd amgylchiadau'r pandemig mae'r Comisiynydd wedi medru dibynnu ar wybodaeth o'r ffynonellau canlynol:

- tystiolaeth am brofiadau aelodau'r cyhoedd gyflwynodd gwynion i'r Comisiynydd
- canfyddiadau'r Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg blynyddol
- canfyddiadau arolwg thematig Covid-19 a gynhaliwyd ym mis Medi 2020 i gasglu tystiolaeth gan sefydliadau am effaith y pandemig
- trafodaethau cyson yn ystod y flwyddyn rhwng swyddogion y Comisiynydd â'r sefydliadau cyhoeddus sydd dan ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru wrth ddelio ag ymholiadau neu faterion yn ymwneud â'u cydymffurfiaeth
- arolwg a gynhaliwyd i wirio cydymffurfiaeth sefydliadau â'r safonau atodol.

Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg

2. Ers sawl blwyddyn mae'r Comisiynydd yn comisiynu cwmni Beaufort Research i ymgymryd â gwaith i gasglu gwybodaeth am agweddau pobl sy'n siarad Cymraeg at y gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau cyhoeddus a'u profiad o'u defnyddio. Oherwydd y pandemig roedd methodoleg cynnal yr arolwg ychydig y wahanol yn ystod 2020-21 i'r fethodoleg mewn blynyddoedd blaenorol.
3. Roedd y sampl wedi ei gynllunio fel arfer i fod yn gynrychioliadol o siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd yng Nghymru trwy edrych ar gyfran sy'n medru siarad Cymraeg oddi fewn i'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Fe wnaeth pandemig iechyd cyhoeddus COVID-19 atal yr arolwg rhag cael ei gynnal yn ei ddull arferol o gyfweld wyneb yn wyneb mewn pwyntiau sampl ledled Cymru ac yn lle hynny, cynhaliwyd cyfweiliadau ar-lein gan ddefnyddio platfform cyfnewid panel ar-lein. Ffurfiwyd yr arolwg ar-lein ar gyfer cwblhau ar gyfrifiadur personol / llechen a ffôn clyfar a chynigiwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg i bob ymatebydd. Gofynnir cwestiwn agoriadol (A ydych chi'n siarad Cymraeg?) i sicrhau fod yr ymatebydd yn siarad Cymraeg ac felly'n gymwys i'w gyfweld. Gwnaethpwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolwg yn ystod Tachwedd i Ragfyr 2020. Cwblhawyd a dadansoddwyd cyfanswm o 424 cyfweliad.

Astudiaeth thematig effaith pandemig Covid-19

4. Gwahoddwyd 224 o sefydliadau cyhoeddus sy'n gweithredu safonau'r Gymraeg neu gynlluniau iaith Gymraeg i gymryd rhan mewn arolwg gan y Comisiynydd ym mis Medi 2020 ynghylch effaith y pandemig ar eu:
- Gwasanaethau Cymraeg
 - Trefniadau cydymffurfio
 - Defnydd mewnol o'r Gymraeg.

-
5. Nodwyd nad bwriad yr arolwg oedd galluogi'r Comisiynydd i ddod i farn ar gydymffurfiaeth sefydliadau ond yn hytrach i:
 - Ddysgu beth oedd effaith y pandemig ar brofiadau defnyddwyr a staff
 - Deall pa mor gadarn a gwreiddiedig yw trefniadau sefydliadau ar gyfer cydymffurfio ac ystyried y Gymraeg
 - Adnabod rhwystrau i barhad y ddarpariaeth Gymraeg, ar lefel sefydliad unigol neu'n systemig
 - Canfod enghreifftiau o arloesi ac arferion da y mae sefydliadau wedi eu gweithredu er mwyn diogelu'r ddarpariaeth Gymraeg.

 6. Atebodd 121 (54%) o sefydliadau yr holiadur – 90 ohonynt (sef 75%) yn gweithredu dyletswyddau safonau'r Gymraeg a'r gweddill yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg. Ceir copi o'r holiadur yn Atodiad 2 a rhestr o'r sefydliadau a gyfrannodd yn Atodiad 3.

 7. Derbyniwyd tystiolaeth gan amrywiaeth eang o sefydliadau o bob un o'r sectorau sy'n gweithredu'r gwahanol reoliadau safonau'r Gymraeg (rhifau 1 i 7). Mae'r dystiolaeth felly'n rhoi darlun o effaith y pandemig ar ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg ar draws y sbectrwm o sefydliadau cyhoeddus.

Atodiad 2: Cwestiynau arolwg effaith Covid-19 ar ddarpariaeth Gymraeg sefydliadau

Gwasanaethau Cymraeg

1. Effaith ar wasanaethau Cymraeg penodol

Rhowch eich barn ar effaith yr argyfwng ar y gwasanaethau Cymraeg a nodir, a'r rhesymau dros yr effaith. Wrth ystyried a oedd unrhyw effaith yn ffafriol neu'n anffafriol o gymharu â'r Saesneg, gallwch ystyried:

- Oedd y gwasanaeth ar gael o gwbl / yn llai aml?
- Oedd y gwasanaeth ar gael yr un mor gyflym ag arfer ynteu oedd yna oedi?
- Oedd y gwasanaeth yr un mor gywir / o ansawdd mor uchel ag arfer?
- Oedd y gwasanaeth yr un mor amlwg a hygyrch, ac yn cael ei hyrwyddo cystal ag arfer?

I ba raddau y gwnaeth yr argyfwng effeithio ar y gwasanaethau?

Beth oedd y rhesymau dros yr effaith?

Gwasanaethau: Derbynfa, Ffôn, Gohebiaeth, Cyfarfodydd gydag unigolion, Cyfarfodydd gyda nifer o bersonau / agored i'r cyhoedd, Dogfennau a deunyddiau eraill, gan gynnwys datganiadau i'r wasg, Gwefannau a gwasanaethau ar-lein, Cyfryngau cymdeithasol.

Dewis ateb: Effaith ffafriol o gymharu â'r gwasanaeth Saesneg; Dim effaith o gwbl; Effaith debyg i'r effaith ar y gwasanaeth Saesneg; Effaith anffafriol o gymharu â'r gwasanaeth Saesneg; Ddim yn berthnasol; Ddim yn gwybod

2. Effaith ar y defnydd o wasanaethau Cymraeg gan y cyhoedd

I ba raddau y gwnaeth yr argyfwng effeithio ar y defnydd o wasanaethau Cymraeg gan y cyhoedd?

Dewis ateb: Effaith ffafriol o gymharu â'r gwasanaeth Saesneg; Dim effaith o gwbl; Effaith debyg i'r effaith ar y gwasanaeth Saesneg; Effaith anffafriol o gymharu â'r gwasanaeth Saesneg; Ddim yn berthnasol; Ddim yn gwybod

Rhowch fanylion yr effaith, gan gynnwys enghreifftiau penodol os yn bosib. Beth oedd y rhesymau dros yr effaith?

3. Datrysiadau technegol

Ydych chi wedi datblygu neu ddefnyddio unrhyw ddatrysiadau technegol newydd yn sgil y cyfnod clo, ar gyfer hwyluso cyswllt y sefydliad â'r cyhoedd?

Dewis ateb: Do, Naddo

Sut mae'r datrysiadau hyn wedi effeithio ar y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg?

Dewis ateb: Hwyluso defnyddio'r Gymraeg; Dim effaith; Rhwystro defnyddio'r Gymraeg
Beth oedd y rhesymau dros yr effaith?

Trefniadau cydymffurfio

4. Datblygiadau o ran llywodraethiant a'r Gymraeg

Wnaethoch chi roi trefniadau arbennig mewn lle yn ystod yr argyfwng er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried a'r ddarpariaeth Gymraeg yn parhau, er enghraifft drwy gynllun parhad busnes / amrywio cyfrifoldebau / newid gweithdrefnau?

Dewis ateb: Do, Naddo

5. Effaith ar drefniadau ac adnoddau cydymffurfio

Rhowch eich barn ar effaith yr argyfwng ar y trefniadau a'r adnoddau a nodir, a'r rhesymau dros yr effaith. Wrth ystyried yr effaith, ac a oedd yn gadarnhaol ynteu'n negyddol, gallwch ystyried:

- Oedd yr un lefel o adnodd ar gael ag arfer?
- Oedd yr un lefel o arbenigedd ar gael?
- Oedd y gwaith yn digwydd yr un mor brydlon ag arfer ynteu oedd yna oedi?
- Oedd y gwaith yr un mor gywir / o ansawdd mor uchel ag arfer?

I ba raddau wnaeth yr argyfwng effeithio ar y trefniadau a'r adnoddau hyn? Beth oedd y rhesymau dros yr effaith?

Trefniadau a'r adnoddau: Swyddogion y Gymraeg; Goruchwylio cydymffurfiaeth; Delio â chwynion; Gwasanaethau cyfieithu; Ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg; Asesu'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi gwag a newydd.

Dewis ateb: Effaith gadarnhaol; Dim effaith / Newidiadau gydag effaith niwtral; Effaith negyddol; Ddim yn berthnasol; Ddim yn gwybod

Defnydd mewnol o'r Gymraeg

6. Effaith ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg

I ba raddau wnaeth yr argyfwng effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg gan staff y sefydliad yn y sefyllfaoedd hyn?

Sefyllfaoedd: Sgyrsiau anffurfiol; Cyfarfodydd mewnol; Drafftio a gwaith ysgrifenedig, e.e. dogfennau, ffurflenni a gohebiaeth; Datblygu sgiliau Cymraeg, e.e. gwersi Cymraeg

Dewisiadau ateb: Effaith gadarnhaol; Dim effaith / Newidiadau gydag effaith niwtral;

Effaith negyddol; Ddim yn berthnasol; Ddim yn gwybod

Rhowch fanylion yr effaith, gan gynnwys enghreifftiau penodol os yn bosib. Beth oedd y rhesymau dros yr effaith?

Arall

7. Datblygiadau ac effeithiau eraill

Oes yna unrhyw ddatblygiadau neu effeithiau eraill rydych wedi eu gweld yn sgil yr argyfwng?

Atodiad 3: Sefydliadau cyhoeddus a gyfrannodd i arolwg thematig Covid-19

ACAS	Comisiwn Penodiadau Barnwrol
Adran Addysg	Comisiwn y Gyfraith
Adran Gwaith a Phensiynau	Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
Amgueddfa Cymru	Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
APC Eryri	Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent
Arolygiaeth Prawf EM	Comisiynydd Pobl Hyn Cymru
Asiantaeth Cyngor Cyfreithiol	Cronfa Gymunedol y Loteri
Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion	Cwmni Hyfforddiant Cambrian
Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch	Cyfoeth Naturiol Cymru
Asiantaeth y Swyddfa Briso	Cyllid a Thollau EM
BBC	Cyllid Myfyrwyr Cymru
BIA Powys	Cyngor Bro Morgannwg
BIP Aneurin Bevan	Cyngor Caerdydd
BIP Bae Abertawe	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
BIP Betsi Cadwaladr	Cyngor Defnyddwyr Dwr
BIP Caerdydd a'r Fro	Cyngor Dinas Casnewydd
BIP Cwm Taf Morgannwg	Cyngor Gwynedd
BIP Hywel Dda	Cyngor Llyfrau Cymru
Bwrdd Parôl	Cyngor Meddygol Cyffredinol
Canolfan Mileniwm Cymru	Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
CBS Blaenau Gwent	Cyngor Osteopatheg Cyffredinol
CBS Caerffili	Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
CBS Conwy	Cyngor Prydeinig
CBS Pen-y-bont ar Ogwr	Cyngor Sir Ceredigion
CBS Rhondda Cynon Taf	Cyngor Sir Ddinbych
CBS Torfaen	Cyngor Sir Fynwy
Chwaraeon Cymru	Cyngor Sir Penfro
CIC Hywel Dda	Cyngor Sir y Fflint
CIC Powys	Cyngor Sir Ynys Môn
Coleg Caerdydd a'r Fro	Cyngor y Gweithlu Addysg
Coleg Cambria	Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol
Coleg Gwent	Data Cymru
Coleg Merthyr Tudful	DVLA
Coleg Pen-y-bont	Dwr Cymru
Coleg Sir Benfro	Estyn
Coleg Sir Gar a Coleg Ceredigion	Gardd Fotaneg
Coleg y Cymoedd	Grwp Colegau CNPT
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	Grwp Cynefin
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	

Grwp Llandrillo Menai
Gwasanaeth Gwybodeg
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd
EM
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Hafren Dyfrdwy
Heddlu De Cymru
Heddlu Gogledd Cymru
Heddlu Gwent
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Llyfrgell Genedlaethol
Llywodraeth Cymru
Ofcom
Opera Cenedlaethol Cymru
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
PCYDDS
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Bangor
Prifysgol De Cymru
Prifysgol Glyndwr
S4C
Sefydliad Dysgu a Gwaith
Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Swyddfa Ystadegau Gwladol
Swyddfa'r Cabinet
Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
Tŷ'r Cwmnïau
WCVA
Ymddiriedolaeth Garbon
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth
Ambiwllans Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Atodiad 4: Geirfa

Defnyddir yr eirfa ganlynol yn yr adroddiad i gyfeirio at nifer neu gyfran y sefydliadau oedd wedi rhoi tystiolaeth ar effaith pandemig Covid-19 ar eu darpariaeth Gymraeg, fel rhan o arolwg y Comisiynydd:

rhai = rhwng 1 a 12 sefydliad (hyd at 10%)

nifer = rhwng 13-60 sefydliad (10-50%)

mwyafrif = rhwng 61-80 sefydliad (50-70%)

llawer = 81 sefydliad neu fwy (dros 70%)



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT
0345 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.cymru
[@ComyGymraeg](https://twitter.com/ComyGymraeg)
comisiynyddygybraeg.cymru

